# Canllaw'r Cynghorydd Da

## Ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mehefin 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Mehefin 2022

# Cydnabyddiaethau

Cyflwyniad i fod yn gynghorydd cymuned neu'n gynghorydd tref yw'r canllaw hwn. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cyfreithiol swyddogol ac ni ddylid dibynnu arno na'i ddefnyddio yn lle cyngor cyfreithiol. Cafodd y gwaith ymchwil ac ysgrifennu ar gyfer y rhifyn cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004 ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei wneud gan Elisabeth Skinner, Laurie Howes a James Derounian o Brifysgol Swydd Gaerloyw. Roedd wedi'i seilio ar fersiwn Saesneg o'r canllaw, a gyhoeddwyd yn 2003 ac a ariannwyd gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad. Yn 2004, roedd y panel cynghori'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Un Llais Cymru, y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, y Comisiwn Archwilio, y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Swyddogion Monitro awdurdodau lleol. Diweddariadau oedd yr ail rifyn (2012) a'r trydydd rhifyn (2017) gan Elisabeth Skinner, gynt o'r Ysgol Gwyddorau Naturiol a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Diweddarwyd y pedwerydd rhifyn hwn (2022) gan Elisabeth Skinner gyda chymorth Mark Galbraith, Clerc Cyngor Gwledig Llanelli.

Nid yw'r cynnwys yn adlewyrchu barn y cyrff unigol a gynrychiolwyd ar y panel cynghori, o reidrwydd.

Mae'r wybodaeth yn y canllaw yn adlewyrchu'r hyn oedd yn hysbys adeg ei ysgrifennu (sef Gwanwyn 2022). Byddai'n arfer da i ddarllenwyr gadw llygad ar hynt polisïau a deddfwriaeth y llywodraeth yn rheolaidd. Mae cynghorwyr da yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf sy'n effeithio ar waith y cyngor.

Mae'r geiriau mewn print trwm wedi'u hesbonio mewn geirfa yng nghefn y canllaw. Mae copïau electronig o'r canllaw ar gael o'r gwefannau canlynol: Llywodraeth Cymru (**llyw.cymru**), y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (**www.slcc.co.uk**) ac Un Llais Cymru (**www.unllaiscymru.org.uk**).

© 2022 Cewch ddyfynnu o'r cyhoeddiad hwn ar yr amod eich bod yn cydnabod y ffynhonnell.

# Rhagair

## Gan Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AS

Canllaw ar gyfer pob cynghorydd cymuned a thref yw hwn, ond yn benodol ar gyfer y rhai a gafodd eu hethol neu eu cyfethol i gyngor yn ddiweddar.

Diolch i bob un ohonoch am ymgymryd â swyddogaeth werthfawr cynghorydd lleol, a’r cyfrifoldeb a ddaw yn sgil hynny.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous a heriol i gynghorwyr cymuned a thref, gan fod pwerau a dyletswyddau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rwy’n gwerthfawrogi'r rôl unigryw y gall cynghorau cymuned a thref ei chwarae wrth gefnogi cymunedau ar lefel cymdogaeth. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i bob un ohonoch sydd wedi bod yn weithgar yn cefnogi’r ymdrechion i helpu’ch cymunedau yn ystod y pandemig. Rwy'n gwybod bod eich cymunedau'n ddiolchgar hefyd.

Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac am ddarparu a chynnal amwynderau yn eu hetholaethau lleol. Rydych hefyd yn cynrychioli buddiannau aelodau unigol o’r cyhoedd a’ch cymuned ehangach.

Gall gwaith cynghorydd fod yn amrywiol a chymhleth, ond gall hefyd roi llawer iawn o foddhad. Mae’r canllaw hwn yn amlinellu swyddogaethau, dyletswyddau a chyfrifoldebau cynghorydd cymuned a thref. Dyma gychwyn ar broses ddysgu barhaus; bydd eich clerc a’ch cadeirydd yn gallu trafod yr hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael. Bydd eisiau i chi ymgyfarwyddo hefyd â chyfrifoldebau a rheolau sefydlog eich cyngor.

Wrth i chi gyflawni eich swyddogaeth, gan ennill gwybodaeth a phrofiad, cewch y boddhad personol o wybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth pendant i’ch cymuned. Rwy’n mawr obeithio y gwnewch chi fwynhau wynebu’r heriau lu a chael boddhad o fod yn gynghorydd.

**Rebecca Evans AS** Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **5**
**Rhan un: I ble rydych yn mynd?** ........ **6**
1. Cynghorwyr ........ 6
2. Y cyngor ........ 7
3. Eich cymuned ........ 10
**Rhan dau: Gofal a sylw dyladwy** ........ **13**
4. Y Rheolau ........ 13
5. Rheolau i Gynghorwyr ........ 17
6. Rheolau i Gyflogwyr ........ 21
7. Rheolau ar gyfer Ymdrin ag Arian Cyhoeddus ........ 22
**Rhan tri: Cychwyn Arni** ........ **26**
8. Cyfarfodydd ........ 26
9. Bod yn Barod ........ 29
10. Yn y Cyfarfod ........ 30
11. Ar ôl y Cyfarfod ........ 31
**Rhan pedwar: Cyflawni'r Hyn Sydd ei Angen** ........ **32**
12. Gwasanaethau ........ 32
13. Paratoi Cynllun ........ 34
14. Cynllunio Gwlad a Thref ........ 35
15. Y Cyngor Cymuned Gweithredol ........ 38
**Rhan pump: Offer Angenrheidiol** ........ **41**
16. Peryglon ........ 41
17. Dogfennau Pwysig ........ 42
18. Ffynonellau Cyngor ........ 43
19. Geirfa ........ 55

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno gwaith cynghorau cymuned a thref a'r rhan rydych yn ei chwarae fel cynghorydd ar haen gyntaf llywodraeth leol, sef yr un sydd agosaf at y cyhoedd. Bydd hefyd yn ddeunydd cyfeirio defnyddiol i chi. Mae'r canllaw wedi'i rannu'n bum rhan i'ch helpu i lwyddo fel cynghorydd newydd, neu hyd yn oed fel cynghorydd profiadol.

# Rhan un: I ble rydych yn mynd?

Mae'r rhan gyntaf yn cyflwyno'r hyn y gallwch ei wneud fel cynghorydd a'r hyn y gall eich cyngor cymuned neu dref ei gyflawni. Mae'n eich rhoi ar ben ffordd fel y gallwch wasanaethu a chynrychioli eich cymuned.

# Rhan dau: Gofal a sylw dyladwy

Mae'r ail ran yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud a'r hyn na ddylech ei wneud fel cyngor, fel cynghorydd, fel cyflogwr ac fel rheolwr ariannol. Os ydych chi a'ch cyngor yn deall y gyfraith, gallwch weithio'n hyderus.

# Rhan tri: Cychwyn arni

Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y cyngor? Mae'r penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd yn llywio'r hyn y mae'r cyngor yn ei wneud ac mae'r cyfarfodydd gorau yn gynhyrchiol, yn broffesiynol – a byth yn rhy hir!

# Rhan pedwar: Cyflawni'r hyn sydd ei angen

Gweithredu ar ran pobl leol sydd dan sylw yma. Mae'r adran hon yn edrych ar weithio mewn partneriaeth a rôl gynrychiadol y cyngor; adolygir y ddarpariaeth o ran gwasanaethau, a rôl eich cyngor yn y system cynllunio gwlad a thref. Pwysleisir y gred mewn cynghorau gweithredol hefyd.

# Rhan pump: Offer angenrheidiol

Yn olaf, cewch syniadau defnyddiol ar gyfer yr offer y mae arnoch ei angen fel cynghorydd, gan gynnwys y peryglon posibl, cyhoeddiadau, dogfennau defnyddiol a chysylltiadau os ydych am gael cyngor. Mae'r mynegai'n fan cyfeirio cyflym pan fydd angen i chi wybod

rhywbeth ar frys. Mae'r geiriau sydd mewn print trwm drwy gydol y testun (y tro cyntaf y dewch ar eu traws) yn cael eu hesbonio yn yr eirfa.

# Rhan un: I ble rydych yn mynd?

## 1. Cynghorwyr

Rydych yn gynghorydd; rydych dros 18 oed ac yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd cymwys o unrhyw wlad arall. Nid ydych yn aelod o staff cyflogedig y cyngor. Os oeddech yn gweithio i'r cyngor pan gawsoch eich ethol, fe wnaethoch chi ymddiswyddo i bob pwrpas wrth wneud y datganiad eich bod yn derbyn swydd cynghorydd.

Rydych yn un o tua 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref yng Nghymru. Byddwch yn atebol i bobl leol am bethau sy'n digwydd yn lleol; felly pam rydych chi am wneud hyn? Y tebygrwydd yw eich bod am wneud rhywbeth cadarnhaol ac, fel y rhan fwyaf o gynghorwyr, rydych yn gobeithio gwneud gwahaniaeth drwy ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich cymuned.

A wnaethoch chi sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad? A gynhaliwyd pleidlais neu a gawsoch eich ethol yn ddiwrthwynebiad? Efallai mai cael eich cyfethol a wnaethoch; mae hyn yn digwydd pan fydd y cyngor yn dewis pwy fydd yn llenwi'r seddau gwag os nad oes digon o ymgeiswyr adeg etholiad. At hynny, os daw swydd yn wag rhwng etholiadau, rhaid i'r cyngor ganfod a yw'r etholwyr eisiau etholiad cyn y gallant gyfethol. Mae rhai cynghorwyr yn cynrychioli plaid wleidyddol ac mae eraill yn annibynnol ar gysylltiadau pleidiol. Pa ffordd bynnag y dewch yn gynghorydd, unwaith y byddwch yn derbyn y swydd yn ffurfiol, nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth: rydych yn gynghorwyr sy'n gweithio gyda'ch gilydd i wasanaethu eich cymuned. Eich tasg chi yw dwyn materion lleol i sylw'r cyngor, a'i helpu i wneud penderfyniadau ar ran y gymuned leol.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yw'r corff annibynnol sy'n llunio adroddiad bob blwyddyn, yn nodi pa daliadau y gellir eu gwneud i gynghorydd. Mae hyn yn cynnwys taliad sylfaenol mandadol o £150 y flwyddyn fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau aelodau pob cyngor cymuned a thref.

Yn ogystal â'r taliad sylfaenol hwn, efallai y bydd gennych hawl i hawlio lwfansau pellach gan gynnwys:

- cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol;

- costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyflawni dyletswyddau cymeradwy o fewn a thu hwnt i ardal y cyngor;
- iawndal ar cyfer colled ariannol.

Penderfynodd y Panel hefyd y caiff cynghorau cymuned a thref wneud taliadau o hyd at £500 y flwyddyn i hyd at bum cynghorydd â chyfrifoldebau penodol. Mae'r rheolau ar gyfer cynghorau mawr ychydig yn wahanol i'r rheolau ar gyfer cynghorau llai. Yn ogystal â'r lwfansau hyn, gall cynghorau hefyd dalu lwfans ychwanegol i'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd.

Heblaw am y taliad sylfaenol, mater i'r cyngor tref neu'r cyngor cymuned yw gwneud y penderfyniad ffurfiol ynghylch a ddylid gwneud y taliadau hyn ac, os felly, faint i'w dalu. Fodd bynnag, mae'r symiau y gall cynghorau eu talu ar gyfer y lwfansau hyn yn cael eu rheoli gan derfynau a bennir gan y Panel. Mae'n eithriadol o bwysig cael cymeradwyaeth ymlaen llaw cyn mynd i wariant, ac mae'n bwysig cadw derbynebau i gefnogi hawliadau am dreuliau fel y bo'n briodol.

Dylai cynghorwyr gael y lwfansau y mae ganddynt hawl briodol iddynt fel mater o drefn ac ni allant 'optio i mewn' i'w derbyn neu beidio. Gall cynghorwyr unigol wrthod derbyn rhan, neu'r cyfan, o'r taliadau os dymunant. Rhaid gwneud hyn drwy ysgrifennu at y swyddog priodol yn y cyngor. Dylai cynghorwyr nodi hefyd fod gofyn talu treth incwm fel arfer ar lwfansau, heblaw ar dreuliau sy'n cael eu had-dalu.

## 2. Y cyngor

Mae eich cyngor yn gorff corfforedig sydd â'i fodolaeth gyfreithiol ei hun, sy'n hollol ar wahân i fodolaeth gyfreithiol ei aelodau. Mae'r corff cyfan yn gyfrifol am ei benderfyniadau. Rhoddwyd pwerau i'r cyngor gan Senedd y DU neu Senedd Cymru, gan gynnwys yr hawl i godi arian drwy drethiant (y praesept) ac amrywiaeth o bwerau i wario arian cyhoeddus (ceir rhagor o fanylion am hyn yn ddiweddarach).

Mae mwy na 730 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Fe wnaeth Deddf Llywodraeth Leol 1972 rannu Cymru gyfan yn 'gymunedau'. Fodd bynnag, ni chafodd bwrdeistrefi blaenorol Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Port Talbot, Rhondda ac Abertawe eu cynnwys yn y darpariaethau a sefydlodd y cynghorau cymuned. O ganlyniad, nid oes unrhyw gynghorau cymuned na thref mewn rhai ardaloedd trefol yn y De. Caiff cynghorau newydd eu creu weithiau ac mae Llywodraeth Cymru'n annog cynghorau

cymuned a thref i ddod at ei gilydd fel clwstwr fel y gallant ddarparu rhagor o wasanaethau ar gyfer eu cymunedau.

Mae cyngor cymuned nodweddiadol yn cynrychioli tua 1,500 o bobl, ond y boblogaeth fwyaf a wasanaethir gan gyngor tref yw'r Barri, sydd â mwy na 50,000 o bobl. Adlewyrchir y gwahaniaethau sylweddol hyn mewn gwariant blynyddol, a allai amrywio o lai na £1,000 i dros ddwy filiwn o bunnoedd. Mae'n bwysig eich bod yn gwybod faint mae eich cyngor yn ei wario bob blwyddyn ac i ble'r aiff yr arian.

Haen etholedig o lywodraeth leol yw eich cyngor. Yr haen arall yng Nghymru yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol. Mae gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau megis addysg, cynllunio gwlad a thref, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan gynghorau cymuned a thref bŵer cyfreithiol i weithredu, ond mae ganddynt lai o ddyletswyddau a mwy o ryddid i ddewis pa gamau i'w cymryd. Gallant chwarae rhan hollbwysig wrth gynrychioli buddiannau eu cymunedau a dylanwadu ar eraill sy'n gwneud penderfyniadau. At hynny, gallant gymryd camau i wella ansawdd bywyd ac amgylchedd pobl leol, ac mewn rhai achosion gallant ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Mae'n bwysig eich bod chi, fel cynghorydd cymuned a thref, yn gweithio'n agos â'r cynghorwyr sir neu'r cynghorwyr bwrdeistref sirol sy'n cynrychioli eich ardal, er budd eich cymuned. Gallwch chi a'ch cyngor wneud gwahaniaeth.

## Beth mae eich cyngor yn ei wneud?

Cynllunio, priffyrdd, traffig, diogelwch cymunedol, tai, goleuadau stryd, rhandiroedd, mynwentydd, meysydd chwarae, canolfannau cymunedol, sbwriel, cofgolofnau rhyfel, seddi a llochesi, hawliau tramwy – dyma rai o'r materion y mae cynghorau cymuned a thref yn ymwneud â hwy. Mae'r llunwyr polisïau yn annog cynghorau cymuned a thref i ddarparu mwy o wasanaethau a chwarae mwy o ran yn eu cymunedau.

Hefyd, mewn amgylchedd ariannol anodd, bydd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn awyddus i drosglwyddo asedau cymunedol megis parciau a mannau chwarae, cyfleusterau cyhoeddus a rhandiroedd i gynghorau cymuned. Dylai cynghorau lleol groesawu'r cyfle i ddiogelu asedau o'r fath er mwyn diwallu anghenion penodol eu cymunedau.

Fel enghreifftiau, gallai eich cyngor drefnu neu roi cymorth ariannol i'r canlynol:

- bws gyda'r hwyr i fynd â phobl ifanc i'r dref agosaf;

- arolwg o’r anghenion tai;
- digwyddiadau clirio pyllau dŵr;
- ailaddurno’r ganolfan gymunedol;
- clwb galw heibio i bobl ifanc yn eu harddegau;
- adfer bandstand i’w gyflwr gwreiddiol;
- offer i’r cylch chwarae;
- cludiant i’r ysbyty.

Wrth gwrs, gallai eich cyngor bob amser benderfynu peidio â gwneud llawer iawn; ond yna efallai y byddech chi a’ch etholwyr yn dechrau meddwl pam y dylai’r cyngor cymuned neu dref fodoli o gwbl.

Gall pob un cyngor ymateb yn unigryw i anghenion y gymuned gyda sensitifrwydd sy’n anoddach i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ei gyflawni.

## Gweithio fel tîm

Mae gan gynghorwyr ddiddordebau gwahanol ac mae materion gwahanol yn tanio eu brwdfrydedd. Mae hyn yn rhywbeth i’w groesawu. Mae gan gynghorwyr sgiliau ac agweddau gwahanol; er enghraifft, mae rhai yn gweithio gyda syniadau tra bo eraill yn ymarferol iawn; mae rhai yn hoffi cyfrifon ond mae’n well gan eraill adroddiadau. Mae angen amrywiaeth o bobl fedrus i weithio fel tîm ar gyngor cymuned neu dref.

Mae eich cadeirydd yn gweithredu fel arweinydd tîm a chanolwr mewn cyfarfodydd (gweler Rhan Tri). Bydd rhai cynghorau’n penodi arweinydd cyngor ar wahân, ond nid oes statws cyfreithiol i’r swyddogaeth wleidyddol hon. Mae’r clerc yn rhoi cyngor a chymorth gweinyddol, ac yn cymryd camau i weithredu penderfyniadau’r cyngor. Efallai y bydd rhaid i’r clerc weithredu fel rheolwr prosiect, cyfarwyddwr personél, swyddog cysylltiadau cyhoeddus neu weinyddwr cyllid. Nid dim ond ysgrifennydd yw’r clerc ac nid yw’n was bach i’r cadeirydd na’r cynghorwyr eraill: dim ond i’r cyngor cyfan y mae’r clerc yn atebol. Y clerc yw swyddog priodol y cyngor yn ôl y gyfraith. Yn gyfreithiol, gall cynghorau gytuno i ddirprwyo penderfyniadau i glercod gan eu bod yn swyddogion proffesiynol, a’u hannibyniaeth yn caniatáu iddynt weithredu ar ran y cyngor. Yn amlwg, rhaid trin y clerc â pharch.

Bydd gan y cynghorau gorau glerc a chynghorwyr sy’n gweithio fel tîm i wasanaethu’r gymuned.

## 3. Eich cymuned

Gwaith eich cyngor yw cynrychioli buddiannau'r gymuned gyfan – a chynrychioli buddiannau gwahanol rannau o'r gymuned i'r un graddau. Ambell waith bydd gwrthdaro rhwng buddiannau, a fydd yn galw am ddefnyddio doethineb; er enghraifft, gallai perchnogion cŵn, rhieni plant bach a cherddwyr anghytuno ynghylch y defnydd o lain o dir yn y pentref. Mae gwneud penderfyniadau anodd, mewn ffordd agored a rhesymol, yn rhywbeth y mae angen i gynghorau cymuned a thref ei wneud yn dda.

Mae angen i bobl leol, gan gynnwys y boblogaeth iau, ddeall a gwerthfawrogi rôl y cynghorydd; mae hyn yn golygu y dylai cynghorwyr hyrwyddo eu rôl yn y gymuned leol a dod o hyd i bobl sy'n awyddus i'w holynu yn eu gweithgarwch yn y cyngor. Mae'n syniad da sefydlu cyngor ieuenctid neu bwyllgor o bobl ifanc, i ddangos eich bod yn awyddus i wrando ar safbwyntiau pobl ifanc. Mae rhai cynghorau wedi manteisio ar y cynnig yn adrannau 118-121 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn bosibl i gyngor cymuned benodi hyd at ddau gynrychiolydd ieuenctid (16 i 25 oed) i gymryd rhan yng ngwaith y cyngor er mwyn cynrychioli buddiannau pobl ifanc sy'n byw, yn gweithio neu'n cael eu haddysg neu eu hyfforddiant yn yr ardal.

Fel cynghorydd, rhaid i chi fod yn hyddysg iawn, yn enwedig ynghylch safbwyntiau lleol amrywiol. Ni allwch gymryd yn ganiataol eich bod yn cynrychioli buddiannau eich etholwyr i gyd heb ymgynghori â nhw. Mae darganfod beth yw anghenion grwpiau gwahanol yn y gymuned (megis lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, yr henoed a phobl anabl) yn rhan bwysig o'ch rôl fel cynghorydd.

Mae'r dulliau profedig a nodir isod yn rhai o'r ffyrdd y gall pobl fynegi eu gobeithion a'u dymuniadau ar gyfer y gymuned.

Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bobl leol nodi pethau y mae angen eu gwella neu sy'n werth eu diogelu. Maent yn ysgogi trafodaeth, gan lywio gwaith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac maent fel arfer yn arwain at weithredu. Maent yn rhoi'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i bobl allu cymryd rhan mewn cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn a wneir yn y gymuned, ac felly maent yn helpu i feithrin 'gallu' cymuned leol. Yn olaf, maent yn galluogi'r gymuned leol i gyfrannu at fentrau fel **Cynlluniau Llesiant Lleol, Cynlluniau Bro** a chynlluniau eraill a arweinir gan y gymuned. I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am y technegau hyn, cysylltwch ag Un Llais Cymru.

Mae **arolygon cymunedol** yn rhoi cyfle i drigolion, gan gynnwys plant, ateb holiadur i fynegi eu barn am yr ardal lle maent yn byw. Cynhaliwyd miloedd lawer o arolygon o'r fath ledled y DU ers y 1970au. Mae'r gyfradd ymateb gan gartrefi yn sylweddol – dros 50% fel arfer – ac mewn cymunedau llai gall gyrraedd 90%.

Mae **datganiadau dylunio** yn ffordd o gynnwys cymunedau mewn adolygiad o amgylchedd adeiledig a naturiol eu hardal. Gall eich awdurdod cynllunio lleol ddefnyddio'r canlyniadau a gyhoeddir i'w helpu i wneud penderfyniadau cynllunio (gweler Rhan Pedwar).

Gall **map cymunedol** fod yn ymarfer creadigol; er enghraifft gallai fod yn ddarlun, yn dapestri neu'n fodel o'r gymuned. Mae pobl yn cofnodi nodweddion lleol sydd o bwys iddynt wrth weithio ar y map.

Ymarfer ymgynghori yw **Planning for Real®**, lle mae pobl yn llunio model syml o'r gymuned (neu ran ohoni) ac yn ei ddefnyddio i ysgogi trafodaeth a phennu blaenoriaethau.

Mae **cynadleddau cymunedol** neu weithdai cymunedol yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddod â phobl ynghyd i siarad am ddyfodol y gymuned.

Yn ogystal â helpu eich cyngor i nodi gwelliannau gwirioneddol, gall y broses ddefnyddio dulliau fel y rhain i atgyfnerthu ymdeimlad pobl o ddiben a pherthyn. Mae'r broses yr un mor bwysig â'r canlyniad.

Wrth gwrs, dylech ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych eisoes yn sail ar gyfer penderfyniadau ar ran eich cymuned, ond mae'r dulliau hyn yn eich helpu i ddod hyd yn oed yn fwy hyddysg ac yn rhoi mandad cryfach i weithredu. Gall ymgynghori â'r gymuned eich helpu i:

- siarad ar ran eich cymuned gyda mwy hyder, yn enwedig mewn trafodaethau gyda chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;
- darparu gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig os nad oes unrhyw ddarparwr arall neu os gall y cyngor cymuned neu dref sicrhau gwell gwerth am arian;
- cefnogi camau a gymerir yn y gymuned a gwasanaethau a ddarperir gan eraill; gall y cyngor gynnig adeiladau, arbenigedd staff a chyllid i roi cychwyn da i brosiectau lleol;
- gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, y sector busnes a chynghorau cymuned a thref

cyfagos, er budd y gymuned. Dylai’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol a’r cyngor cymuned neu dref ategu ei gilydd.

I lawer o bobl, y boddhad a ddaw o weithredu ar ran eu cymuned leol sy’n eu hannog i fod yn gynghorwyr. Yr her nesaf yw sicrhau bod y cyngor yn gweithredu’n briodol i gyflawni’r hyn y mae’n bwriadu ei wneud. Rhaid iddo fynd ati gan roi gofal a sylw dyladwy i’r gyfraith. Mae **Rhan Dau** yn cyflwyno’r rheolau sy’n llywio gwaith eich cyngor – ac er nad yw hyn mor atyniadol â gweithredu, mae’n hollbwysig i’w lwyddiant.

# Rhan dau: Gofal a sylw dyladwy

## 4. Y Rheolau

Beth allwch chi ei wneud? Beth mae'n rhaid i chi ei wneud? Beth na ddylech ei wneud? Efallai nad yw'r rheolau yn gyffrous, ond os nad ydych yn eu deall gallai eich cyngor fynd i drafferthion.

- Rhaid i gyngor wneud yr hyn y mae'n ofynnol iddo ei wneud yn ôl y gyfraith.
- Dim ond yr hyn y dywed y gyfraith y gall ei wneud y gall cyngor ei wneud.
- Ni ddylai cyngor wneud unrhyw beth os nad oes ganddo bŵer cyfreithiol i weithredu.

Y cwestiwn hollbwysig yw – a oes gan y cyngor bŵer cyfreithiol i weithredu? Rhaid i gyngor ofyn y cwestiwn hwn bob amser wrth wneud penderfyniad, yn enwedig os yw'n golygu gwario arian cyhoeddus. Dim ond pan fydd Deddf gan Senedd y DU, neu Fesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru yn caniatáu hynny, y gall cyngor cymuned neu dref ymgymryd â gweithgaredd. Er enghraifft, mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adran 19, yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned a thref ) wario arian ar hamdden. Mae Rhan Pump yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o weithgareddau a phwerau cyfreithiol penodol.

Os yw'r cyngor yn gweithredu heb bŵer cyfreithiol (hyd yn oed os byddai'n boblogaidd gyda'r gymuned), neu os yw'n defnyddio'r pŵer anghywir i weithredu, gellid cyhuddo'r cyngor o weithredu y tu hwnt i'w bwerau ('ultra vires' yw'r term cyfreithiol). Mae cael eich dal yn 'ddi-rym' yn risg ddiangen, ond mae llawer o ffynonellau o gyngor ar gael. Dechreuwch drwy ofyn i'ch clerc, gan fod ei swydd yn cynnwys rhoi cyngor ar y gyfraith i'r cyngor cymuned neu dref. Dylai eich clerc allu cael cyngor arbenigol ar faterion cyfreithiol mwy cymhleth gan **Un Llais Cymru** (os yw eich Cyngor yn aelod) a'r **Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.**

Prin yw'r gweithgareddau na all cyngor cymuned ymgymryd â hwy; y gamp yw sicrhau bod pŵer cyfreithiol ar gyfer pob cam a gymerir gan y cyngor. Y pŵer mwyaf defnyddiol yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n golygu y gall cynghorau cymwys wneud unrhyw beth y gall unigolyn yn gyffredinol ei wneud (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, adran 24). Mae hyn yn golygu y gall cyngor fasnachu neu gefnogi'r economi leol; gall roi grantiau i unigolion neu ariannu prosiectau y tu allan i'r gymuned (hyd yn oed y tu allan i Gymru). Nid

yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gael i bob cyngor – dim ond i'r rhai sy'n gymwys drwy fodloni'r tri maen prawf cymhwysedd:

- Datganwyd bod dwy ran o dair o’r cynghorwyr wedi'u hethol (h.y. heb eu cyfethol)
- Clerc â chymwysterau (cymwysterau a bennir mewn rheoliadau)
- Mae’r archwilydd wedi barnu bod y ddau archwiliad diweddaraf yn ddiamod.

Os na all y cyngor ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, rhaid iddo chwilio am bwerau penodol sy'n cadarnhau y gall weithredu. Os na ellir dod o hyd i bŵer penodol, dylai ystyried adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae adran 137 yn rhoi pŵer i’r cyngor cymuned wneud unrhyw beth y bydd y gymuned (neu ran ohoni) yn elwa ohono os nad oes unrhyw bŵer penodol arall ar gyfer y cam a gymerir. Os bydd statud arall yn atal cyngor rhag gwario arian neu’n cyfyngu ar y swm y gellir ei wario, ni ellir defnyddio adran 137 (na’r pwer cymhwysedd cyffredinol) i ddirymu hynny. O dan adran 137, gall eich cyngor wario hyd at ffigur penodol y flwyddyn fesul etholwr (£8.41 yw hyn yn 2021/22, gan godi bob blwyddyn yn unol â chwyddiant) ar unrhyw beth sydd, yn ei farn ef, yn fuddiol os (a dim ond os) na ellir defnyddio unrhyw bŵer arall. Rhaid i’r gwariant o dan y pŵer hwn fod yn gymesur â’r budd i’r gymuned; mae hyn yn golygu bod rhaid i lefel yr arian sy’n cael ei wario gyfateb i raddfa’r budd i bobl leol.

Cafodd y pŵer llesiant ei ddiddymu gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 (gan dod i rym ym mis Mai 2022). Gall unrhyw beth a ddechreuwyd o dan y pŵer hwn barhau nes iddo gael ei gwblhau ond ni all unrhyw beth newydd ddechrau. Os daw'r cyngor yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, dylid defnyddio hwnnw yn ei le.

## Felly beth y mae’n rhaid i chi ei wneud fel cyngor?

Mae’r gyfraith yn rhoi llawer o ddewis i gynghorau cymuned a thref o ran y gweithgareddau y gallant ymgymryd â hwy; ond prin yw’r dyletswyddau, sef gweithgareddau y mae’n rhaid iddynt eu cyflawni i ddarparu gwasanaethau i bobl leol. Ond mae’n rhaid i gyngor wneud y canlynol:

- cyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor;
- cyhoeddi cynllun hyfforddi sy'n nodi anghenion hyfforddi’r cynghorwyr a’r staff;

- os yw ei gyllideb yn £200,000 neu'n fwy, gymryd camau rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol sydd mewn grym yn ei ardal a chyhoeddi adroddiad blynyddol i ddangos ei gynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn;
- darparu rhandiroedd os yw'r cyngor o'r farn fod galw amdanynt gan drigolion lleol a'i bod yn rhesymol gwneud hynny;
- cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018;
- cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth;
- ystyried effaith ei benderfyniadau ar leihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal;
- ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac egwyddor llywodraeth agored, rhaid i bob cyngor cymuned neu dref gael **cynllun cyhoeddi**. Mae hwn yn dangos pa wybodaeth sydd ar gael a sut y gall y cyhoedd ei gweld.

Mae asesiad o risg yn un o'r dogfennau ariannol y mae'r cynllun enghreifftiol yn rhoi sylw iddynt. Mae hyn yn golygu bod rhwymedigaeth ar bob cyngor i ddangos ei fod wedi nodi a rheoli'r risgiau i arian cyhoeddus sy'n deillio o'u gwaith. Rhaid i gyngor cymuned neu dref hefyd gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. Mae dyletswydd ar y cyngor cymuned hefyd i sicrhau bod yr holl reolau ar gyfer gweinyddu'r cyngor yn cael eu dilyn. Rhaid i'r cyngor:

- benodi cadeirydd i'r cyngor;
- penodi swyddogion i gyflawni ei swyddogaethau, fel y bo'n briodol;
- penodi swyddog ariannol cyfrifol i reoli materion ariannol y cyngor; y clerc fydd y swyddog ariannol cyfrifol yn aml, yn enwedig mewn cynghorau llai;
- penodi archwilydd mewnol annibynnol a chymwys (gweler isod);
- sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i'w mynychu (cyfarfod aml-leoliad);
- cadw cofnodion o'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â busnes y cyngor;
- cynnal cyfarfod blynyddol o'r cyngor ym mis Mai neu'n fuan wedi etholiad y cyngor lleol.

Nodir y rheolau hyn yn y gyfraith i reoli **gweithdrefnau'r** cyngor, a gall eich cyngor ychwanegu ei reoliadau ei hun. Gyda'i gilydd gall y rheolau hyn ffurfio'r rheolau sefydlog y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan eich cyngor (gweler Rhan Tri). Os gwelwch nad oes gan eich cyngor ei reolau sefydlog (anariannol) ei hun, nid yw hyn yn anghyfreithlon ond mae'n annoeth, ac mae dyletswyddau a nodir yn y **statud**, megis penodi cadeirydd a swyddog priodol (y clerc fel arfer), yn dal i fod yn gymwys. Mae Un Llais Cymru (gweler Rhan Pump) yn darparu rheolau sefydlog enghreifftiol. Rhaid i'ch cyngor fod â rheolau sefydlog sy'n ymdrin â chontractau i gyflenwi nwyddau a deunyddiau neu gyflawni gwaith (adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Rhaid i gyfarfodydd y cyngor fod yn agored i'r cyhoedd, ac mae deddfwriaeth anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor wneud ei gyfarfodydd yn hygyrch i unrhyw un sy'n dymuno bod yn bresennol. Rhaid i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod gael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r cyngor am unrhyw fusnes i'w drafod.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor sicrhau bod dogfennau ar gael i'r cyhoedd yn ysbryd llywodraeth agored. Mae cynllun cyhoeddi enghreifftiol ar gael gan y Comisynydd Gwybodaeth. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael ar ffurf electronig. Mae'r canllawiau statudol ar hyn i'w cael yn Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref.

Os ydych yn dechrau meddwl bod gormod o reolau, cofiwch eu bod yn diogelu hawliau pobl (gan gynnwys eich hawliau chi) ac yn rhoi hyder bod y sefydliad yn cael ei redeg yn briodol.

## Y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Mae'n gosod yr egwyddorion cyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'n un o nifer o ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni ei hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur 2011 yn creu swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg. Nod y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Mesur a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig ag ef yn gosod safonau sy'n nodi pa bryd a sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, wrth ddelio â'r cyhoedd, darparu gwasanaethau, gwneud

penderfyniadau ynghylch polisïau, recriwtio staff, delio â chyflogeion a chadw cofnodion. Swyddogaeth y Comisiynydd yw gosod a gorfodi'r rheoliadau, ond ceir hawl i apelio. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau ar gyfer cynghorau cymuned hyd yma, a bydd y cynlluniau iaith Gymraeg yn parhau mewn grym nes bydd y rheoliadau wedi'u gwneud.

Disgwylir i'ch cyngor drin y Gymraeg yn rhesymol ac yn gymesur wrth ddelio â'r cyhoedd. Gall hyn effeithio ar gyfarfodydd, gohebiaeth, galwadau ffôn, arwyddion lleol, dogfennau a gyhoeddir, polisïau rhoi grantiau, tendrau, contractau, hysbysiadau a gwefannau.

Efallai y byddai'n werth dod i wybod beth yw safonau eich cyngor sir neu'ch cyngor bwrdeistref sirol. Os oes gan eich cyngor ran i'w chwarae er mwyn cyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol, efallai y bydd am ystyried sut i helpu i gyflawni 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

## 5. Rheolau i Gynghorwyr

Hyd yn oed os ydych yn gymwys i sefyll fel cynghorydd ac os cafodd yr etholiadau eu cynnal yn briodol, ni allwch weithredu fel cynghorydd nes eich bod wedi llofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i lynu wrth y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor (gweler isod).

Mae dyletswydd arnoch i weithredu'n briodol fel cynghorydd. Yn arbennig, mae gennych gyfrifoldeb i:

- fynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned neu dref pan gewch wŷs i wneud hynny; yn ôl y gyfraith mae'r hysbysiad i fynychu cyfarfod y cyngor yn wŷs, oherwydd mae dyletswydd arnoch i fod yn bresennol;
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd drwy astudio'r agenda ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig, i sicrhau bod gennych yr wybodaeth briodol am y materion sydd i'w trafod, gan geisio cyngor lle y bo'n briodol;
- cymryd rhan mewn cyfarfodydd a llunio barn wrthrychol yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r gymuned – a chadw wedyn at benderfyniadau'r mwyafrif;
- sicrhau, gyda chynghorwyr eraill, fod y cyngor yn cael ei reoli'n briodol;
- gweithredu ar ran yr etholaeth gyfan i'r un graddau, ac nid y rhai a gefnogodd eich ymgyrch etholiadol yn unig; yn yr un modd, ymddiddori ym mhob mater i'r un graddau ac nid dim ond y materion lleol hynny y gwnaethoch ymgyrchu drostynt;

gwrando, ac wedyn gynrychioli barn y gymuned wrth drafod busnes y cyngor a gweithio gyda chyrff allanol;

- ymddwyn yn briodol fel cynrychiolydd etholedig y bobl.

## Y cod ymddygiad

Mae'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor yn ddogfen gyfreithiol sy'n rhoi arweiniad i chi, er mwyn sicrhau eich bod yn ymddwyn yn briodol fel cynghorydd.Pan lofnodwch eich 'datganiad derbyn swydd' rydych hefyd yn cytuno i gadw at y cod. Mae'r cod yn seiliedig ar yr egwyddorion pwysig hyn a bennwyd gan Senedd Cymru:

- anhunanoldeb;
- gonestrwydd;
- uniondeb a phriodoldeb;
- dyletswydd i gynnal y gyfraith;
- stiwardiaeth;
- gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau;
- cydraddoldeb a pharch;
- natur agored;
- atebolrwydd;
- arweiniad.

Hanfod y cod yw eich bod yn cytuno i weithredu'n agored ac yn anrhydeddus er budd y cyhoedd. Ni ddylech fyth ddefnyddio eich swydd yn amhriodol i sicrhau mantais bersonol neu i osgoi rhoi eich hun, neu unrhyw un arall, o dan anfantais. Ni ddylech fyth ddwyn anfri arnoch chi eich hun fel aelod o'r cyngor, nac ar y cyngor ei hun. Mae'r cod hefyd yn eich atgoffa y dylech:

- roi ystyriaeth ddyladwy i egwyddor cydraddoldeb;
- dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill;

- peidio ag ymddwyn fel bwli nac aflonyddu ar unrhyw un arall;
- peidio â pheryglu didueddrwydd staff eich cyngor;
- peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol;
- peidio ag atal mynediad at wybodaeth y mae gan rywun hawl cyfreithlon iddi;
- peidio â dwyn anfri ar eich swydd na’ch awdurdod;
- hysbysu ynghylch ymddygiad troseddol posibl gan aelod arall;
- hysbysu’r Swyddog Monitro yn y cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol ynghylch achosion posibl o’r cod yn cael ei dorri gan aelod arall; sylwch fod Un Llais Cymru yn cyhoeddi model enghreifftiol i helpu i ddatrys problemau sy’n codi;
- peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na disylwedd yn erbyn aelodau eraill eich cyngor na gweithwyr eich cyngor;
- cydweithredu mewn ymchwiliadau;
- peidio â defnyddio eich swydd yn amhriodol i sicrhau mantais nac anfantais bersonol i unrhyw un;
- peidio â defnyddio adnoddau’r cyngor yn amhriodol, gan gynnwys at ddibenion gwleidyddol neu breifat;
- gwneud penderfyniadau yn unol â rhinweddau’r achos ac er budd y cyhoedd, gan roi sylw i gyngor swyddogion;
- ufuddhau i’r rheolau yn ymwneud â lwfansau a chostau;
- osgoi derbyn rhoddion, lletygarwch, manteision a gwasanaethau answyddogol eraill.

Fel cynghorydd, rhaid i chi ddatgan buddiant personol cyn gynted ag y byddwch yn ymwybodol y gallech chi (neu bobl sy’n gysylltiedig â chi) elwa, yn fwy na’r rhan fwyaf o bobl eraill yn y gymuned, ar ganlyniad y mater dan sylw. Ar ddechrau cyfarfod, byddwch hefyd yn datgan eich buddiant mewn unrhyw fater sydd ar yr agenda. Rhaid i’r cyngor gael ei weld yn gwneud penderfyniadau yn deg ac yn agored, heb fod wedi niweidio’r mater. Os gallai fod yn rhesymol i aelod o’r cyhoedd feddwl y byddai eich buddiant personol yn dylanwadu ar eich barn ar fater neu’n ei niweidio, rhaid i chi ddatgan **buddiant sy’n rhagfarnu.**

Mae hyn yn berthnasol p’un a yw’n gyfarfod o gyngor, o bwyllgor neu o is-bwyllgor, neu’n gyfarfod arall y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod yn bresennol ynddo. Mae’n helpu os yw’r agenda yn rhoi cyfle i gynghorwyr ddatgan buddiant yn gynnar mewn cyfarfod. Mae’n rhaid i chi hefyd ddatgan buddiant ar unrhyw bwynt yn ystod cyfarfod os byddwch yn dod yn ymwybodol o fuddiant nad oeddech wedi’i rag-weld.

Ym mhob achos bron, os oes gennych fuddiant sy’n rhagfarnu rhaid i chi dynnu’n ôl o’r drafodaeth ar y mater sy’n gysylltiedig â’r buddiant hwnnw, os na roddir goddefeb i chi gan Bwyllgor Safonau’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol. Mae’r cod yn egluro rhai achosion pan nad yw buddiant personol yn un sy’n rhagfarnu, er enghraifft, os yw’r mater yn ymwneud ag:

- awdurdod perthnasol arall yr ydych yn aelod ohono;
- awdurdod neu gorff cyhoeddus arall lle mae gennych swyddogaeth rheoli cyffredinol;
- corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu arno gan eich cyngor.

Mae buddiannau personol yn cynnwys eich cyflogaeth, tirddaliadau yn y gymuned a wasanaethwch, buddiannau teuluol a busnes, a’ch aelodaeth a’ch swyddi rheoli (megis trysorydd) mewn sefydliadau eraill. Rhaid i fuddiannau personol a ddatgelir mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf gael eu cofrestru’n ysgrifenedig gyda chlerc y cyngor o fewn y terfyn amser; felly mae’n helpu (ond nid yw’n orfodol) os ydych yn llenwi eich cofrestr buddiannau ar ddechrau eich tymor fel cynghorydd. Rhaid sicrhau bod y gofrestr buddiannau’n gyfredol a dylid ei chyhoeddi ar-lein. Rhaid i roddion a lletygarwch a dderbynnir yn rhinwedd eich swydd fel cynghorydd gael eu cofrestru hefyd.

Gall Swyddogion Monitro roi cyngor, ar gais, ond chi sy’n bennaf cyfrifol am gydymffurfio â’r cod, ac yn arbennig am benderfynu a ddylech ddatgan buddiant ai peidio. Wrth benderfynu a oes gennych fuddiant personol, rhaid i chi ystyried unrhyw gyngor gan y Pwyllgor Safonau perthnasol. Rhaid i chi ddarllen cod ymddygiad eich cyngor yn ofalus, gan mai dim ond crynodeb a geir yma.

Os oes gennych le rhesymol i gredu bod cynghorydd arall wedi methu â chydymffurfio â’r cod ymddygiad, mae dyletswydd arnoch i hysbysu Swyddog Monitro’r awdurdod lleol perthnasol am hyn. Bydd y Swyddog Monitro’n eich cynghori a ddylid hysbysu **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** am yr achos posibl o ddiffyg cydymffurfio. Beth bynnag fo barn y Swyddog Monitro, gall cynghorydd hysbysu’r

Ombwdsmon am ddiffyg cydymffurfio posibl, ond bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl i chi gyflwyno tystiolaeth o'r diffyg cydymffurfio. Yna bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu a ddylid ymchwilio i hyn ai peidio. Byddwch yn gweithredu'n groes i'r cod ymddygiad os byddwch yn gwneud cwyn flinderus, faleisus neu ddisylwedd. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'ch helpu i ddeall eich rhwymedigaethau o dan y cod (gweler Pennod 18). Cofiwch, mae'r cod yn diogelu eich etholwyr, eich cyngor a chi fel cynghorydd.

## 6. Rheolau i Gyflogwyr

Mae rheolau hefyd yn diogelu cyflogeion eich cyngor a'ch cyngor fel cyflogwr. Mae hwn yn gryn gyfrifoldeb; gall camddealltwriaeth godi weithiau rhwng cyngor a'i gyflogeion. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor weithredu fel cyflogwr cyfrifol bob amser.

Cofiwch, cyflogir y clerc gan y cyngor ac mae'n atebol i'r cyngor cyfan. Mae hyn yn golygu na all cynghorwyr unigol gyfarwyddo'r clerc. Mae pob aelod arall o staff, er y cânt eu cyflogi gan y cyngor, yn uniongyrchol atebol i'r clerc fel arfer, sef eu rheolwr a'r un sy'n gyfrifol am yr hyn a gyflawnant. Dylai'r egwyddorion hyn adeiladu ar barch ac ystyriaeth rhwng y cyflogai a'r cyflogwr a dealltwriaeth briodol o'r rolau gwahanol (gweler Rhan Un).

Mae'n hollbwysig fod y cyngor yn sicrhau bod gan bob aelod o staff gontract cyflogaeth sy'n cynnwys telerau ac amodau, yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i'w ategu. Dylid talu clercod (o ran isafswm) yn ôl yr argymhellion y cytunwyd arnynt gan **Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol** a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Ond sylwer, pan fydd cynghorwyr yn gweithredu fel clercod ambell waith, ni ellir eu talu.

Mae cyflogeion y cyngor yn cael eu diogelu'n llwyr gan y gyfraith pa un a ydynt yn weithwyr amser llawn neu ran amser. Mae cyfraith cyflogaeth yn eu diogelu o ran hawliau pensiwn, gwyliau blynyddol, absenoldeb a thâl salwch, er enghraifft. Mae'n eu diogelu rhag bwlio neu achosion o aflonyddu a gwahaniaethu. Mae gweithdrefn gwyno gytûn yn sicrhau bod problemau'n cael eu trin yn briodol os byddant yn codi. Mae cyfraith Iechyd a Diogelwch hefyd yn diogelu cyflogeion (a chynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd); dylai eich clerc allu cynghori ar faterion o'r fath. Am fanylion pellach ar swyddogaeth y cyngor fel cyflogwr, gweler 'Being a Good Employer' (manylion yn Rhan Pump).

Mae cyfraith cyflogaeth yn faes cymhleth ac mae angen i gynghorwyr sicrhau eu bod yn deall eu prif gyfrifoldebau fel cyflogwr yn iawn. Mae Un Llais Cymru yn cynnig dau fodiwl hyfforddi ar rôl y cyngor fel cyflogwr. Mae'r cyntaf yn archwilio elfennau craidd rôl y cyflogwr

ac mae'r ail yn manylu mwy ynglŷn ag agweddau ymarferol rheoli staff yn effeithiol. Gall y gosb am beidio â chydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth fod yn sylweddol, yn arbennig o ran lefel y dyfarniadau y gall Tribiwnlysoedd Cyflogaeth eu gwneud mewn achosion pan fo cyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau. Gall Un Llais Cymru gynnig gwasanaeth ymgynghori i gynghorau y gall fod arnynt angen cymorth penodol i ddelio â phroblemau cyflogaeth.

## 7. Rheolau ar gyfer Ymdrin ag Arian Cyhoeddus

Mae'n hanfodol fod y cyngor yn cael ei weld yn darparu gwerth am arian a'i fod yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wella ei berfformiad o ran gweithredu'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheolau ariannol y cyngor a'r rheolaethau, y gweithdrefnau a'r rheoliadau statudol yn amddiffyn y cyngor. Yn bwysicaf oll, mae'r rheolau yn rhoi'r offer angenrheidiol i'ch cyngor allu cyflawni ei amcanion a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Gall bod yn gyfrifol am arian corff cyhoeddus godi ofn ar rywun. Cynlluniwyd y rheolau a grëwyd gan y Llywodraeth i sicrhau bod y cyngor yn rheoli'r risgiau o ran arian cyhoeddus (gweler Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014). Dylai'r geiriau rheoli risg gael eu hargraffu ar galon pob cynghorydd. Y newyddion da yw bod y rheolau yn helpu i'ch diogelu chi a'ch cyngor rhag unrhyw drychineb posibl. Dylai eich cyngor sefydlu cynllun rheoli risg sy'n amlygu pob risg sylweddol o ran gweithgareddau'r cyngor ac sy'n egluro sut y caiff risgiau o'r fath eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn yswiriant priodol i ddiogelu cyflogeion, adeiladau, arian parod ac aelodau'r cyhoedd. Dylai eich cyngor sicrhau bod y polisi yn cynnwys costau cyfreithiol. Cofiwch fod rhaid archwilio meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon yn rheolaidd, a chofnodi'r archwiliadau hynny'n briodol. Nid arian yn unig sydd dan sylw fan hyn, ond gofalu am bobl hefyd.

Fel cynghorydd, rydych yn rhannu cyfrifoldeb dros reolaeth ariannol y cyngor, ond caiff y cyllid ei weinyddu gan swyddog sy'n cae ei alw, yn ôl y gyfraith, yn **swyddog ariannol cyfrifol**. Eich rôl yw sicrhau bod y swyddog ariannol cyfrifol yn gweithredu'n briodol a bod y cyngor yn osgoi'r risg o dwyll, drwgddyledion neu ddiofalwch. Mae'n bosibl y gofynnir i chi lofnodi sieciau i wneud taliadau ar ran y cyngor. Mae mwy o ffyrdd o dalu ar gael i gynghorau lleol erbyn hyn, gan gynnwys taliadau electronig megis trosglwyddiad BACS. Mae'n bosibl y gofynnir i chi ac aelod arall gyd-lofnodi taflen awdurdodi BACS yn lle gorfod llofnodi sieciau. Rhaid i chi sicrhau bob amser bod y cais yn briodol ac yn gywir. Ni ddylech byth lofnodi siec wag nac awdurdodiad BACS heb sicrhau bod y taliad at ddiben cyfreithlon.

Mae gan eich cyngor ei reoliadau ariannol ei hun (yn debyg i reolau sefydlog) yn disgrifio sut y mae'r cyngor yn rheoli ei gyllid. Mae rheoliadau ariannol enghreifftiol ar gael gan Un Llais Cymru. Os nad yw eich cyngor wedi mabwysiadu rheoliadau ariannol, gallai hyn greu trafferthion a rhaid i'ch cyngor weithredu fel mater o frys.

Felly, rhaid bod gan y cyngor system gadarn o **reolaeth fewnol**. Dylai lefel y rheolaeth fewnol fod yn briodol i wariant a gweithgarwch eich cyngor; bydd angen i wiriadau cynghorau sy'n darparu ystod ehangach o wasanaethau fod yn fwy cynhwysfawr na rhai cynghorau llai prysur.

Gall rheolaethau mewnol gynnwys prosesau awdurdodi a/neu wahanu dyletswyddau. Mae'n bosibl y bydd yr aelodau'n cymryd rhan pan fydd pwyllgor yn cadw llygad ar y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol ac yn gwirio dogfennau ariannol a ddewisir ar hap. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer derbyn arian, gwneud taliadau a chofnodi trafodiadau ariannol. Fel arfer, bydd y dasg hon yn cael ei chyflawni gan gynghorwyr sydd â dealltwriaeth dda o ddogfennau ariannol. Dylai'r canfyddiadau gael eu cyflwyno i'r cyngor ac, ynghyd ag adborth rheolaidd ar y cyfrifon gan y swyddog ariannol cyfrifol, bydd pob cynghorydd yn ymwybodol o sefyllfa ariannol y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod popeth yn agored ac yn deg a bod gennych yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Cofiwch – mae pob cynghorydd yn gyfrifol am gyllid y cyngor.

Mae'r **gyllideb** yn ddull hanfodol o reoli cyllid y cyngor (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, adran 50). Mae'n dangos bod gan eich cyngor ddigon o incwm i gynnal ei weithgareddau a'i bolisïau. Rhaid i'r gyllideb gael ei pharatoi ymlaen llaw, gan ei bod yn cael ei defnyddio i bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn. Drwy wirio gwariant yn erbyn cynlluniau'r gyllideb yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y cyngor, mae'r cyngor yn rheoli ei gyllid ac yn monitro'r cynnydd a wneir tuag at yr hyn y mae am ei gyflawni.

Rhaid i'r cyngor fabwysiadu **gweithdrefnau caffael** tryloyw. Dyma'r broses y mae'r cyngor yn ei dilyn wrth brynu gwasanaethau a nwyddau. Mae'n golygu bod rhaid i'r cyngor gael tendrau fel y bo'n briodol (bydd y clerc yn cynghori) a'i fod yn trin y tendrau hynny'n hollol deg. Mae hefyd yn golygu sefydlu contractau priodol gyda darparwyr gwasanaethau neu nwyddau. Rhaid i'r cyngor, yn ôl y gyfraith, gael rheol sefydlog sy'n nodi'r broses ar gyfer pennu contractau.

## Archwiliadau Mewnol ac Allanol

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, dylai'r archwilydd mewnol fod yn berson annibynnol a chymwys a benodwyd gan y cyngor i gynnal gwiriadau ar ei system reolaeth. Mae'n hanfodol bod gennych lythyr ffurfiol yn cadarnhau'r trefniant gyda'r archwilydd mewnol. Ni all yr archwilydd mewnol annibynnol ymwneud ag unrhyw agwedd arall ar fusnes y cyngor, gan gynnwys paratoi'r cyfrifon neu gynnal y cofnodion cyfrifyddu. Mae hyn yn golygu hefyd na all yr archwilydd mewnol fod yn gwasanaethu fel aelod o'r cyngor. Gallai clerc arall neu gyfrifydd fod yn addas (ond nid yw trefniadau cyfatebol rhwng cynghorau yn briodol). Bydd yr archwilydd mewnol yn cynnal profion sy'n canolbwyntio ar feysydd sy'n risg i arian cyhoeddus, yn cyflwyno adroddiadau i'r cyngor ac, o bosibl, yn paratoi adroddiad ar y ffurflen flynyddol i gadarnhau bod gan y cyngor system reolaeth a'i fod yn ei gweithredu. Mae 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales: A Practitioner's Guide' (y fersiwn ddiweddaraf) a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn nodi dull effeithiol o gynnal archwiliad mewnol. Dylai'r Cyngor gael adroddiad blynyddol gan ei archwilydd mewnol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid hefyd i gynghorau gyflwyno eu cyfrifon blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae cyfrifon y mwyafrif o gynghorau ar ffurf ffurflen flynyddol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau i'r archwiliad gael ei gynnal gan archwilwyr o Swyddfa Archwilio Cymru. Diben yr archwiliad allanol yw gwirio bod datganiadau cyfrifo wedi cael eu paratoi'n briodol a bod y cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol o ran rheolaeth ariannol. Bob blwyddyn, bydd archwilwyr allanol hefyd yn gofyn i gael archwilio tystiolaeth sy'n gysylltiedig â thema benodol, megis monitro'r gyllideb neu benodi archwilydd mewnol. Unwaith bob tair blynedd, bydd yr archwilydd yn dilyn proses fanylach ac yn profi trafodion.

Y ffurflen flynyddol yw'r prif ddull o sicrhau bod y cyngor yn atebol i'w etholwyr ac mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o gynghorau lenwi ffurflen flynyddol i gadarnhau bod popeth mewn trefn. Bydd datganiadau wedi'u llofnodi yn cadarnhau'r cyfrifoldeb am drefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Yn benodol, maent yn dangos bod:

- y cyfrifon wedi'u paratoi a'u cymeradwyo'n briodol;
- system reolaeth fewnol yn ei lle – gan gynnwys penodi archwilydd mewnol cymwys ac annibynnol – a bod effeithiolrwydd y system a'r penodiad wedi'u hadolygu;
- y cyngor wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'r gyfraith;
- y cyngor wedi asesu pob risg bosibl i arian cyhoeddus;

- y cyfrifon wedi'u cyhoeddi i'w harolygu yn gyffredinol er mwyn i hawliau etholwyr gael eu harfer;
- nad oes unrhyw faterion cudd neu niweidiol posibl ar ddod, fel hawliad yn erbyn y cyngor;
- gwahaniaethau sylweddol yn y ffigurau (rhwng y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol) wedi'u hegluro.

Fel aelod o'r cyngor, rydych yn gyfrifol am sicrhau bod y ffurflen flynyddol yn adlewyrchu rheolaeth ariannol y cyngor yn gywir. Bydd eich clerc yn rhoi cyngor a sicrwydd ar hyn.

Os ydych chi a'ch cyd-gynghorwyr wedi gweithredu'n briodol yn y cyfnod cyn yr archwiliad allanol, cewch dystysgrif a barn ddiamod yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hynny'n golygu nad yw'r archwilydd wedi gweld dim yn y dogfennau sy'n achosi pryder nad yw'r cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

# Rhan tri: Cychwyn Arni

## 8. Cyfarfodydd

Mae cynghorau yn cynnal eu busnes drwy gyfarfodydd. Dyma ble y chwaraewch eich rhan fel un sy'n gwneud penderfyniadau. Y cadeirydd sydd wrth y llyw, ac mae'r clerc (neu ddirprwy efallai) yn cynorthwyo'r cyngor wrth iddo drafod busnes. Tîm y cyngor ar waith yw'r cyfarfod.

Digwyddiadau ffurfiol yw cyfarfodydd y cyngor, nid achlysuron cymdeithasol. Mae iddynt ddiben eglur – gwneud penderfyniadau yn dilyn trafodaeth briodol a phenodol. At hynny, maent yn ddigwyddiadau cyhoeddus; mae gan y wasg a'r cyhoedd hawl i weld sut y mae'r cyngor yn gweithredu. Ceir eithriadau pan fydd materion sensitif i'w trafod (megis materion cyfreithiol, cytundebol neu bersonél) ac yna gall y cyngor gytuno i wahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau hynny yn unig.

O fis Mai 2022, rhaid i gyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer cynnull cyfarfodydd, sy'n caniatáu – ond nid yn ei gwneud yn ofynnol – i gyfranogwyr fod mewn sawl lleoliad. Y gofyniad lleiaf yw bod aelodau'n gallu clywed a chael eu clywed gan eraill. O fis Mai 2022, mae gofyn cael cyfranogiad y cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu y caiff aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan mewn dadl, ond rhaid rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno sylwadau am y materion sydd i'w trafod.

Fel arfer mae'r cyngor yn gwneud ei benderfyniadau yng nghyfarfodydd y cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau. Rhaid i gyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau gael eu hysbysebu ac mae'n rhaid i bob un ohonynt fod yn agored i'r wasg a'r cyhoedd. Dylai'r cyngor benderfynu ar amserlen y cyfarfodydd am y flwyddyn.

Cyfarfodydd o'r cyngor llawn yw cyfarfodydd y cyngor. Dylai pob cynghorydd fod yn bresennol.

- Daw cyfarfodydd y pwyllgorau â nifer lai o gynghorwyr at ei gilydd i ganolbwyntio ar un o swyddogaethau penodol y cyngor a rhannu'r llwyth gwaith.
- Mae rhai pwyllgorau yn bwyllgorau parhaol neu sefydlog, ond sefydlir eraill ar gyfer prosiectau tymor byr. Mae gan lawer o gynghorau Bwyllgor Cynllunio parhaol sy'n caniatáu iddynt roi eu sylwadau ar geisiadau cynllunio unwaith bob pythefnos heb gynnal cyfarfod llawn o'r cyngor.

- Mae rhai pwyllgorau yn cynghori; maent yn gwneud argymhellion i'r cyngor llawn, sydd wedyn yn gwneud y penderfyniadau. Ceir pwyllgorau gweithredol hefyd lle mae'r cyngor llawn yn dirprwyo (neu'n trosglwyddo) y pŵer i wneud rhai penderfyniadau i'r pwyllgor. Yna mae'r pwyllgor yn cyflwyno ei benderfyniadau i'r cyngor llawn. Mae hyn yn helpu'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniadau heb gyfeirio at y cyngor llawn.
- Penodir is-bwyllgorau gan bwyllgor i drafod pwnc penodol ymhlith grŵp hyd yn oed yn llai o gynghorwyr. Fel arall, maent yn gweithredu fel pwyllgorau.
- Ambell waith, sefydlir gweithgorau neu 'grwpiau gorchwyl' at ddiben tymor byr. Nid yw'r rhain yn gorfod dilyn y gweithdrefnau caeth sy'n berthnasol i gyfarfodydd ffurfiol y cyngor, ac nid oes angen eu cynnal yn gyhoeddus, ond ni ddylid eu defnyddio i osgoi rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd. Ni all gweithgor wneud penderfyniad ar ran y cyngor.
- Weithiau gall pobl nad ydynt yn gynghorwyr ymuno â phwyllgor neu is-bwyllgor (er na allant bleidleisio, heblaw am ambell i eithriad). Mae hon yn ffordd wych o gynnwys eraill, yn arbennig pobl ifanc, yng ngwaith y cyngor.

## Cyfarfodydd blynyddol

Os cewch eich ethol ym mis Mai, Cyfarfod Blynyddol y Cyngor fydd eich cyfarfod cyntaf. Dyma pryd y byddwch yn ethol cadeirydd ac is- gadeirydd mae'n siŵr, ynghyd â phenodi aelodau'r pwyllgorau a chynrychiolwyr ar gyrff eraill. Mae'n helpu i feddwl am hwn fel y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac i gofio mai cyfarfod o'r cyngor ydyw.

Nid oes gofyniad i gynnal Cyfarfod Cymuned neu Gyfarfod Tref Blynyddol ond gellir galw cyfarfod cymuned neu dref ar unrhyw adeg. Nid yw hwn yn gyfarfod o'r cyngor. Cyfarfod o etholwyr y gymuned neu'r dref ydyw, a gaiff ei alw i drafod materion y gymuned neu'r dref. Gall cadeirydd y cyngor cymuned neu dref, neu ddau gynghorydd arall, neu 10% o'r etholwyr neu 50 etholwr o'r gymuned – p'run bynnag yw'r lleiaf, alw'r cyfarfod. Mae cyfarfod cymuned neu dref yn gyfle da i ymgynghori â'ch etholwyr ar beth yr hoffent i chi ei wneud, a rhaglen waith eich cyngor am y flwyddyn.

## Rheolau sefydlog

Mae'r rheolau ar gyfer cyfarfod blynyddol y cyngor a'r holl gyfarfodydd eraill wedi'u cynnwys yn rheolau sefydlog y cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau gweithdrefn a bennwyd yn y

gyfraith a rheoliadau ychwanegol a ddewiswyd gan eich cyngor. Mae rheolau sefydlog yn helpu'r Cyngor i weithredu'n ddidrafferth. Er enghraifft, mae rheol sefydlog yn atgyfnerthu'r gofyniad cyfreithiol am gworwm – rhaid i draean o'r cynghorwyr (neu dri, pa un bynnag yw'r mwyaf) fod yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod. Mae rheolau sefydlog eraill yn pennu, er enghraifft:

- trefn y busnes;
- hyd y cyfarfodydd a hyd yr amser siarad;
- amserlen y cyfarfodydd am y flwyddyn;
- dirprwyo (trosglwyddo tasgau) i'r pwyllgorau a'r swyddogion;
- gofynion pleidleisio;
- gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd.

## Parchu'r cadeirydd

Y cadeirydd sydd wrth y llyw yn ystod cyfarfodydd y cyngor; mae hon yn swydd a gydnabyddir yn y gyfraith ac mae'n un sy'n ennyn parch. Cofiwch, caiff y cadeirydd ei ethol am flwyddyn yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor. Mae dyletswydd ar gadeiryddion i sicrhau bod pob penderfyniad yn gyfreithlon a dylent gymryd camau i gynnwys pob cynghorydd yn y drafodaeth. Mae'n arfer da i'r cadeirydd droi at y clerc am gyngor.

Yn ôl y gyfraith, prin yw'r pwerau arbennig sydd gan y cadeirydd. Er enghraifft, mae'n anghyfreithlon i gyngor ddirprwyo penderfyniadau i unrhyw gynghorydd unigol ac nid yw'r cadeirydd yn wahanol. Ond, pan fydd y pleidleisiau'n gyfartal, mae gan y cadeirydd ail bleidlais, neu bleidlais fwrw, sy'n sicrhau y gellir gwneud penderfyniad.

Mae gan y cadeirydd berthynas arbennig â'r cyhoedd yn aml, yn enwedig mewn tref ble mae'r cadeirydd yn faer hefyd. Gall y cadeirydd gyflawni dyletswyddau sifig ar ran y cyngor megis annerch digwyddiadau yn y gymuned neu groesawu ymwelwyr swyddogol o wledydd tramor. Gall y cadeirydd gael lwfans cyfrifoldeb ychwanegol i gynnal y rôl gyhoeddus bwysig hon.

Os bydd y cynghorwyr, y clerc a'r cadeirydd yn cydweithio fel tîm, byddant yn cyfuno eu hegni a'u sgiliau i roi budd gwirioneddol i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu. Mae perthynas waith dda, parch at ei gilydd a dealltwriaeth o'u rolau gwahanol yn hollbwysig. Gall gwrthdaro rhwng y bobl allweddol hyn, yn enwedig yn ystod cyfarfodydd o flaen y wasg neu'r cyhoedd, wneud drwg i'r cyngor.

## 9. Bod yn Barod

Gall eich cyfarfod cyntaf fel cynghorydd godi ofn arnoch wrth i chi dybio beth fydd yn digwydd a ble i eistedd. Gobeithio y bydd y cynghorwyr eraill yn eich croesawu.

Yn eich cyfarfod cyntaf, neu cyn y cyfarfod, rhaid i chi lofnodi'r datganiad derbyn swydd. Yn ôl y gyfraith, nid ydych yn gynghorydd nes eich bod wedi llofnodi hwn. Ar yr un pryd, rydych yn gwneud ymrwymiad ysgrifenedig i lynu wrth god ymddygiad eich cyngor. Cyn i chi lofnodi, rhaid i'r clerc roi copi o'r ddogfen bwysig hon i chi, ac mae'n rhaid i chi ei darllen.

O leiaf **dri diwrnod clir** cyn pob cyfarfod o'r cyngor neu bwyllgor, dylai gwŷs ac **agenda** gael eu hanfon atoch. Pennir y tri diwrnod clir yn y gyfraith oherwydd ei bod yn bwysig cael eich hysbysu am y materion i'w trafod. Ni ellir ychwanegu pynciau y mae angen dod i benderfyniad yn eu cylch at yr agenda ar ôl y terfyn amser o dri diwrnod clir; rhaid iddynt aros am gyfarfod arall.

Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl gwneud penderfyniad, yn enwedig penderfyniad I wario arian neu argymhelliad yn ymwneud â chais cynllunio, heb ddigon o rybudd (tri diwrnod clir). Ond gall cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor (nid cadeirydd y cyngor) alw cyfarfod gyda 24 awr o rybudd os ystyrir bod y mater i'w drafod yn fater brys.

Dylai pob eitem ar yr agenda nodi'n glir beth mae disgwyl i chi fel cynghorydd ei wneud a nodi'n fanwl beth yw'r pwnc sydd i'w drafod. Er enghraifft, nid yw eitem ar yr agenda o dan y pennawd 'Camfeydd' yn rhoi syniad i chi o'r hyn i'w ddisgwyl. Mae'n fwy defnyddiol gwybod mai eich tasg yn y cyfarfod yw:

- Cael adroddiad gan y Cynghorydd Jones ar gyflwr y camfeydd yn y gymuned a chytuno ar gamau gweithredu mewn ymateb i'r cynigion (amgaeir copi o'r adroddiad).

Mae eitemau agenda amwys nad ydynt yn nodi'r union fusnes (fel Materion yn Codi, Gohebiaeth ac Unrhyw Fater Arall) yn beryglus gan na allwch wneud penderfyniadau o dan y penawdau hyn.

Cyfrifoldeb y clerc yw'r agenda. Rhaid i'r clerc awdurdodi neu ddilysu'r agenda a'r gwŷs a gall benderfynu sut y cânt eu llunio. Gwneir y broses hon yn aml drwy ymgynghori â'r cadeirydd. Gallwch ofyn i'r clerc ychwanegu eitemau at yr agenda os teimlwch y dylid trafod pwnc perthnasol.

Mae'r pum cwestiwn canlynol yn helpu cynghorwyr i baratoi ar gyfer cyfarfod.

- Beth yw diben y cyfarfod?
- Pa ran y dylwn ei chwarae?
- Pa bapurau y mae'n rhaid i mi eu darllen?
- Pa bobl y mae angen i mi ymgynghori â nhw?
- Beth addewais i ei wneud cyn y cyfarfod?

## 10. Yn y Cyfarfod

Beth os na allwch fod yn bresennol? Cofiwch, dylech fod yn bresennol, ond weithiau gall pethau godi ac ni allwch fynd. Dylech gysylltu â'r clerc i ymddiheuro a rhoi eglurhad. Os na fyddwch yn mynychu unrhyw gyfarfodydd am chwe mis, rhaid i chi ofyn i'r cyngor gymeradwyo'r rheswm pam nad ydych yn gallu mynychu, cyn diwedd y cyfnod hwn. Heb gymeradwyaeth ffurfiol y cyngor, cewch eich gwahardd ac ni fyddwch bellach yn gynghorydd.

Cofiwch, os oes posibilrwydd bod gennych fuddiant personol yn un o benderfyniadau'r cyngor, rhaid i chi ddatgan y buddiant hwnnw cyn gynted ag y byddwch yn ymwybodol ohono.

Y cwestiwn mawr, os ydych wedi datgan buddiant personol yn ymwneud â mater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod, yw a yw hwnnw'n fuddiant sy'n rhagfarnu (sy'n niweidio eich barn er budd y cyhoedd). Os felly, ni allwch gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater, a bydd rhaid i chi adael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei ystyried (oni bai eich bod wedi cael caniatâd Pwyllgor Safonau'r prif awdurdod). Dylai'r agenda gynnwys eitem sy'n rhoi cyfle i gynghorwyr ddatgan unrhyw fuddiannau, ond dylech ddatgan buddiant ar unrhyw bwynt os dewch yn ymwybodol o un yn ystod y cyfarfod.

Wrth gwrs, gwaith y cadeirydd yw rheoli'r cyfarfod drwy gyflwyno eitemau ar yr agenda, gwahodd aelodau i siarad, llywio'r drafodaeth, egluro materion y mae angen dod i benderfyniad yn eu cylch a chrynhoi'r drafodaeth. Mae cynghorwyr, ar ôl trafod, yn pleidleisio dros y cynnig neu yn ei erbyn, a hynny drwy godi dwylo fel arfer. Gall cynghorau ddewis eu dull pleidleisio eu hunain yn awr. Gelwir materion y mae angen dod i benderfyniad yn eu cylch yn gynigion ac fe'u cofnodir fel penderfyniadau; yn y cofnodion; er enghraifft, "Penderfynwyd y bydd y cyngor yn cyfrannu £2000 i'r cynllun bysiau cymunedol". Os nad oes gennych farn ar gynnig, neu os na allwch benderfynu, gallwch atal eich

pleidlais, ond ni ddylech wneud hynny'n rhy aml. Fel arfer ni chaiff enwau pleidleiswyr eu cofnodi ond, os bydd angen, gallwch ofyn i enwau gael eu cofnodi.

Cofiwch fod penderfyniadau'r cyngor yn benderfyniadau corfforaethol. Mae'n arfer da chwilio am atebion adeiladol a chymaint o dir cyffredin â phosibl.

Dylech gadw cyfraniadau'n fyr ac yn gryno: mae'n siŵr nad ydych yn mwynhau gwrando ar bobl eraill sy'n siarad am ormod o amser. Gweithiwch drwy'r cadeirydd bob amser a cheisiwch beidio â cheisio cael y gorau ar gyd-gynghorwyr. Peidiwch byth ag ymosod yn bersonol ar bobl eraill, er bod temtasiwn i wneud hynny efallai. Os gallwch gynnwys ychydig o hiwmor a synnwyr cyffredin yn y cyfarfod, bydd yn bleser gweithio gyda chi!

Rhaid i'r cyngor hysbysebu'r cyfarfodydd drwy hysbysiadau cyhoeddus; mae gan y cyhoedd hawl i fod yn bresennol. Dylai'r cyngor roi cyfle i aelodau'r cyhoedd ddweud eu dweud yn ystod cyfnod byr, diffiniedig, yn fuan yn y cyfarfod. Yn ôl Paragraff 14 o Orchymyn Llywodraeth Leol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) 2008, gall cynghorydd sydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn eitem ar yr agenda wneud sylwadau llafar, ateb cwestiynau neu ddarparu tystiolaeth ar y mater, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn cael cyfle i fod yn bresennol i'r un diben. Bydd rhaid i'r cynghorydd adael yr ystafell, yn ôl yr arfer, pan fydd y cyngor yn trafod y mater. Os na fydd cynghorydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod i gyflwyno sylwadau llafar, caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (unwaith eto, ar yr amod bod y cyhoedd yn cael bod yn bresennol yn y cyfarfod i wneud sylwadau), ond bydd rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y mae'r cyngor wedi'i mabwysiadu at y diben hwn. Yn ogystal â hynny, byddai cynghorwyr sir, cynghorwyr bwrdeistref sirol a swyddogion yr heddlu fel arfer yn cyfrannu at y cyfarfod ar wahoddiad y cadeirydd, wrth drafod yr eitem briodol ar yr agenda.

Rhaid i'r cyfarfod fod â chworwm bob amser, felly os bydd angen i chi adael yn ystod cyfarfod o'r cyngor cofiwch roi gwybod i'r clerc a'r cadeirydd ymlaen llaw.

Fel rheol, ni ddylai cyfarfodydd bara mwy na dwyawr neu bydd yn dechrau mynd yn anodd canolbwyntio. Mae agenda wedi'i llunio'n dda gyda phynciau penodol i'w trafod yn ffordd werthfawr o helpu'r cadeirydd i ddod â'r cyfarfod i ben ar amser.

## 11. Ar ôl y Cyfarfod

Mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud ac mae angen eu rhoi ar waith. Mae'r clerc neu ysgrifennydd y cofnodion yn ysgrifennu'r cofnodion fel cofnod cyfreithiol o'r hyn y

penderfynwyd arno yn y cyfarfod. Nid oes angen nodi pwy a ddywedodd beth – gellir crynhoi'r drafodaeth ond rhaid i'r penderfyniadau gael eu cofnodi'n fanwl gywir. Mae'n bwysig bod y cofnodion yn gywir ac felly caiff cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cadarnhau a'u llofnodi ar ddechrau'r cyfarfod nesaf. Mae'n syniad da i'r cofnodion gofnodi'n glir y camau i'w cymryd yn dilyn y cyfarfod.

Heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod o'r cyngor, rhaid i'r cyngor gyhoeddi nodyn yn electronig sy'n nodi:

- Enwau'r aelodau a oedd yn y cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb;
- Unrhyw ddatganiadau o fuddiant;
- Unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniadau unrhyw bleidleisiau.

Beth sy'n digwydd os bydd angen gwneud penderfyniad rhwng cyfarfodydd? Os oes angen trafodaeth lawn ar y mater, gall y cadeirydd alw cyfarfod brys o bwyllgor neu gyfarfod arbennig, ond mae dirprwyo yn ddull defnyddiol. Mae adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i gyngor ddirprwyo'r pŵer i wneud penderfyniadau i swyddog, i bwyllgor, i is-bwyllgor neu i gyngor arall. Mae'n arfer da nodi mewn rheolau sefydlog y math o benderfyniadau y gall y clerc eu gwneud megis penderfyniadau arferol, delio ag argyfwng eu wario symiau bach o arian. Efallai y bydd rheolau sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r clerc wneud penderfyniadau ar ôl ymgynghori â dau gynghorydd (gan gynnwys y cadeirydd) ond penderfyniad y swyddog fydd hyn o hyd. Yn bwysicaf oll, ni ddylai'r cyngor ganiatáu i'r mater gael ei ddirprwyo i un cynghorydd – nid hyd yn oed i'r cadeirydd.

# Rhan pedwar: Cyflawni'r Hyn Sydd ei Angen

## 12. Gwasanaethau

Rydych wedi cwblhau'r cylch erbyn hyn ac yn dychwelyd at y materion a godwyd yn Rhan Un. Bydd y cynghorau cymuned a thref gorau am wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd i bobl yn eu cymuned. Y duedd ledled Cymru a Lloegr yw i'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl fod yn fwy gweithredol a darparu mwy o wasanaethau. Mae'r adran hon yn awgrymu sut y gall y cyngor fod yn ddeinamig ac yn broffesiynol wrth gyflawni'r hyn sydd ei angen, yn enwedig os yw'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Gall cynghorau cymuned a thref ddefnyddio eu pwerau cyfreithiol i ddarparu llawer o wasanaethau, o ganolfannau cymunedol i wyliau, ac o randiroedd i fysiau. Gall cynghorau wneud bron unrhyw beth ar yr amod eu bod yn gweithredu'n gyfreithlon a bod ganddynt bŵer neu ddyletswydd i wneud hynny (gweler Rhan Pump am restr o bwerau).

Mae cynghorau cymuned a thref hefyd yn darparu gwasanaethau mewn partneriaeth â chyrff eraill (gan gynnwys cynghorau cymuned cyfagos), neu fel asiant iddynt. Mae'n bwysig bod gwaith y cyngor cymuned neu dref yn ategu gwaith y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol; mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, gallai cyngor cymuned neu dref reoli gwasanaethau llyfrgell i'r awdurdod sirol neu'r awdurdod bwrdeistref sirol neu ddarparu gwasanaeth torri gwair sy'n diwallu anghenion lleol yn well. Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar bob cyngor i lunio cytundebau 'Siarter' fel sail ar gyfer y berthynas â'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol yn yr ardal. Ceir canllawiau ar ddatblygu siarteri yn 'Cymuned ar y Cyd – Meithrin perthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref'.

Os bydd y cyngor cymuned neu dref yn cymryd yr awenau wrth sefydlu partneriaeth, dylai ddynodi a chynrychioli grwpiau buddiannau cymunedol a buddiannau lleiafrifol (megis pobl anabl neu grwpiau ethnig) naill ai drwy aelodaeth neu drwy ymgynghori. Dylai maint y bartneriaeth fod yn hawdd ei reoli – hyd at ugain partner dyweder – a dylai anelu at roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Gallai cynghorau cymuned a thref weithio mewn partneriaeth hefyd, er enghraifft, â phwyllgor neuadd y pentref i helpu pobl ifanc leol, neu â chwmnïau i annog twristiaeth. Gallent gynnig arian, offer a safleoedd, i helpu eraill i ddarparu gwasanaethau. Mae rhoi grantiau i sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth gofal plant, gwasanaethau i'r henoed, gweithgareddau celf, gwaith clirio pyllau neu chwaraeon yn galllu gwella ansawdd bywyd cymunedol. Mae grant gweddol fach yn aml yn helpu corff arall i sicrhau rhagor o gyllid o ffynonellau eraill, megis y Loteri. Gall y cyngor cymuned neu dref weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl wasanaethau lleol. Gellid cael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill, gan gynnwys awdurdodau sir ac awdurdodau bwrdeistref sirol a chyrff gwirfoddol, drwy gyfrifiadur sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd sydd ar gael yn y cyngor cymuned. Os credwch na allai eich cyngor ei fforddio, gofynnwch i chi'ch hun a fyddai pobl leol yn talu ychydig yn fwy o dreth gyngor, pe baent yn gallu gweld bod y cyngor cymuned neu dref yn sicrhau manteision gwirioneddol.

## 13. Paratoi Cynllun

Sut mae eich cyngor yn gwybod pa wasanaethau i'w darparu neu ba weithgareddau i'w cynnal? Mae'r ateb yn glir. Mae'n ymgynghori, yn gwrando ac yn nodi beth sydd ar goll; yna mae'n cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac mae ei bolisïau a'i gynlluniau gweithredu yn dechrau ymffurfio.

Yn Rhan Un, awgrymwyd bod arolygon, mapiau cymunedol, cynadleddau cymunedol, datganiadau dylunio a 'Planning for Real' yn ffyrdd y gall eich cyngor nodi anghenion a dymuniadau pobl leol. Mae dulliau fel hyn yn atgyfnerthu'r ysbryd cymunedol ac yn meithrin hyder, yn enwedig os ydynt yn cynnwys pob rhan o'r gymuned. Mae cyngor sy'n gwrando yn gwybod bod ganddo gefnogaeth leol i'r camau y bydd yn eu cymryd.

Wrth ystyried pa wasanaethau i'w darparu neu ba weithgareddau i'w cefnogi, dylai cynghorau cymuned a thref hefyd roi ystyriaeth i'r asesiad o lesiant ar gyfer eu hardal a'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol. Dim ond ar rai cynghorau cymuned a thref y bydd dyletswydd i gymryd camau rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion hynny, ond mae gan bob cyngor ran bwysig i'w chwarae er mwyn gwella llesiant yn eu hardal.

Nid yw'r syniad y gallai cyngor tref neu gymuned fod â strategaeth neu **gynllun busnes** yn syndod i neb erbyn hyn. Mae'n ffordd hollbwysig o lywio'r hyn a wneir; mae'n dangos yn glir yr hyn y mae'r cyngor eisiau ei gyflawni a'r ffordd y bydd yn gwneud hynny.

Unwaith y byddwch yn gwybod beth rydych chi (a phobl yr ardal yn arbennig) am ei gael, gallwch benderfynu sut i dalu amdano. Mae llawer o gynghorau yn dechrau gyda'r arian ac yna'n penderfynu beth y gellir ei wneud gyda'r arian hwnnw. Mae rhai cynghorau yn honni bod cyn lleied o arian ganddynt fel na allant wneud bron ddim. Mae tystiolaeth yn awgrymu'n glir y byddai trethdalwyr lleol yn barod i dalu mwy pe baent yn gallu gweld canlyniadau ar ffurf gwell gwasanaethau. Gofynnwch yn gyntaf, ac yna pennwch y gyllideb yn unol â hynny. Bydd y cynghorau gorau yn llunio cynllun busnes sy'n cysylltu camau a chyllid ar gyfer cyfnod y weinyddiaeth – pedair neu bum mlynedd, dyweder.

Beth bynnag fo dull eich cyngor o lunio cynlluniau, mae'r rheoliadau ariannol yn dweud bod rhaid iddo gael cyllideb. Mae'n gyngor da i ddilyn yr egwyddor ganlynol: CGP – y Cynllun yn creu'r Gyllideb sy'n pennu'r Praesept. Cofiwch, cymerir y praesept o'r dreth gyngor. Dylai eich cyngor ymchwilio i ffynonellau ariannu eraill megis grantiau a nawdd i'w help i weithredu ei bolisïau; cyllid nad yw'n braesept yw traean o incwm cyngor cymuned, ar gyfartaledd.

Mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rhan weithredol wrth gynrychioli buddiannau'r gymuned mewn unrhyw bartneriaeth a sefydlir i reoli camau lleol i wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd. Mae cynrychiolaeth cyngor cymuned neu dref ar gyrff eraill a chyd-drefniadau gwaith yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Pan fydd y cyfle'n codi, dylech ystyried gwneud cais am y swyddi hyn.

Gall cynghorwyr neu swyddogion gynrychioli'r cyngor ar bartneriaeth. Mae cynrychiolwyr yn dal yn atebol i'r cyngor cymuned neu dref a rhaid iddynt adrodd yn ôl yn rheolaidd.

Mae cynllun yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn llywio cyfraniad y cyngor tref neu gymuned at ddatblygu Cynllun Llesiant Lleol y **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**. Arweinwyr a phrif weithredwyr yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru yw aelodau'r Bwrdd, ynghyd ag eraill a wahoddir i fynychu ei gyfarfodydd. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy helpu i gyflawni'r nodau llesiant. I gyflawni'r ddyletswydd hon, bydd partneriaid y Bwrdd yn ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau ac yn ystyried y dystiolaeth cyn llunio Cynllun Llesiant Lleol.

Un o'r heriau allweddol yw sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn gwneud cynigion yn unol ag anghenion ac amcanion y gymuned leol benodol y mae'r cyngor cymuned neu dref yn ei chynrychioli. Mae hon yn adeg gyffrous i fod yn gynghorydd cymuned. Bydd cynlluniau a pholisïau yn eich llywio wrth i chi geisio gwella ansawdd bywyd y gymuned.

## 14. Cynllunio Gwlad a Thref

Mae Cynllunio Gwlad a Thref wedi'i ddatganoli i Senedd Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol i'w chael yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gall cyfraniad eich cyngor at y gwaith o baratoi cynlluniau eich helpu i reoli newid ond mae'r system gynllunio ehangach yn effeithio'n fawr ar fywyd yn y gymuned ac mae'n ffordd hollbwysig o sicrhau budd. Cynllunio gwlad a thref (cynllunio'r defnydd o dir a gofod ffisegol), yw'r gweithgaredd pwysicaf un i lawer o gynghorau. Mae'n syndod felly nad oes gan lawer o gynghorau cymuned neu dref eu polisïau eu hunain i lywio ymatebion i geisiadau cynllunio. Gall diffyg polisïau lleol penodol ar ddatblygu a diogelu'r ardal arwain at gyflwyno sylwadau anghyson a byrfyfyr i'r awdurdod cynllunio lleol (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol, neu awdurdod Parc Cenedlaethol).

Felly, pa ran y mae eich cyngor cymuned neu dref yn ei chwarae yn y system gynllunio? Dylai cynghorau cymuned a thref chwilio am gopïau o geisiadau cynllunio ar-lein a gallant

wedyn wneud sylwadau am eu rhinweddau. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau cymuned a thref yn rhoi o'u hamser a'u hegni yng nghyfarfodydd y cyngor llawn neu'r pwyllgor cynllunio, i benderfynu pa argymhellion i'w gwneud. Er nad oes rhaid i'r awdurdod cynllunio gytuno, rhaid iddo ystyried barn y gymuned. Os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno â'ch sylwadau, dylech ystyried gofyn am ei resymau.

Mae rhai ceisiadau cynllunio yn ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer datblygiadau drwy ganiatâd cynllunio amlinellol. Os na chaiff cynlluniau eu hystyried yn briodol yn ystod y cam hwn, mae'n aml yn rhy hwyr i fynegi pryder pan ddaw manylion llawn y cynigion amlinellol a gytunwyd gerbron y cyngor yn ddiweddarach.

Dylai sylwadau eich cyngor ar gais cynllunio gydymffurfio â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol, neu mae'n bosibl y cânt eu hanwybyddu. Rhaid i'r awdurdod cynllunio, yn ôl y gyfraith, gael ei lywio gan ei gynllun datblygu ei hun.

Mae angen i'r cyngor cymuned neu dref ddeall y gweithdrefnau y bydd yr awdurdod cynllunio'n eu dilyn wrth wneud penderfyniadau. Gwneir rhai penderfyniadau gan bwyllgor cynllunio'r awdurdod, ond dirprwyir y rhan fwyaf o'r penderfyniadau i swyddogion. Mae ystyriaethau perthnasol yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau – materion sydd, yn ôl y gyfraith, yn berthnasol i gais cynllunio. Rhaid ystyried materion o'r fath wrth wneud argymhelliad ar gais cynllunio. Ymhlith yr ystyriaethau perthnasol mae:

- cynllun datblygu'r awdurdod cynllunio;
- hanes cynllunio safle (gan gynnwys ceisiadau cynharach);
- hygyrchedd;
- traffig;
- ffyrdd a pharcio;
- archaeoleg;
- arolwg, cynllun neu ddatganiad dylunio cymunedol.

Mae eich teimladau personol am y cais, neu'r ymgeisydd, yn amherthnasol. Budd ehangach y cyhoedd sy'n bwysig.

Mae **Cymorth Cynllunio Cymru** yn cynnig cyngor a hyfforddiant i gynghorwyr tref a chymuned ynglŷn â'u cyfraniad at y broses gynllunio.

Mae tri ymateb posibl i gais cynllunio. Gall eich cyngor benderfynu argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod, neu ei gymeradwyo gydag amodau. Gall y cyngor cymuned neu

dref awgrymu amodau priodol megis deunyddiau, y maint mwyaf, trefniadau parcio neu drefniadau mynediad.

Mae'r awdurdod cynllunio yn gyfrifol am **reoli datblygu,** sef rheoli datblygiadau drwy geisiadau cynllunio (heblaw rheoli **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â hynny). Mae gwybodaeth leol y cyngor cymuned neu dref, ynghyd â dealltwriaeth gadarn o'r broses gynllunio, yn golygu bod ei safbwyntiau yn fwy tebygol o gael gwrandawiad gan yr awdurdod cynllunio neu gan Lywodraeth Cymru. Fel y dywedodd un swyddog cynllunio; "mae rhai cynghorau cymuned a thref yn deall y system ac yn ddylanwadol … ac eraill ddim." Sylwch, yn achos Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, y gall cynghorau cymuned ddewis llunio adroddiadau ar yr effaith ar y gymuned.

Gall cynghorau cymuned a thref dreulio oriau ar reoli datblygiadau gan anghofio, efallai, fod dylanwadu ar bolisïau'r awdurdod cynllunio yr un mor bwysig.

Y ddogfen unigol fwyaf dylanwadol yn y broses gynllunio yw cynllun datblygu'r awdurdod cynllunio lleol. Rhaid gwneud pob penderfyniad cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Os nad yw eich cyngor yn cymryd rhan pan fydd y cynllun yn cael ei drafod a'i ddatblygu, gall gael sioc annifyr yn nes ymlaen, pan fydd yn ceisio gwrthwynebu ceisiadau cynllunio a gyflwynir yn unol â pholisïau'r cynllun. Caiff cynlluniau datblygu eu monitro'n flynyddol.

Mae datganiad dylunio yn atodiad i'r **cynllun datblygu lleol** a gall ddylanwadu ar y ffordd y rheolir datblygiadau. Fe'i cynhyrchir fel arfer gan y cyngor cymuned neu dref, ar y cyd â'r gymuned y mae'n perthyn iddi.

Ar ôl cael ei dderbyn gan yr awdurdod cynllunio daw yn **ddogfen gynllunio atodol**. Mae cymuned â datganiad dylunio yn fwy tebygol o gytuno ynglŷn â materion cynllunio. Mae hefyd yn bosibl gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod cynllunio lleol i lunio elfen ar wahân o gynllun gweithredu cymuned neu dref sy'n cwmpasu cynllunio gofodol perthnasol – goblygiadau'r cynllun gweithredu ar gyfer gofod ffisegol o fewn y gymuned. Yna gellir mabwysiadu elfen ofodol y cynllun fel dogfen gynllunio atodol.

Gall cynllunio ennyn teimladau cryfion mewn pobl ac mae gan y cyngor gyfrifoldeb dros gynrychioli'r gymuned gyfan – nid y rhai â'r lleisiau cryfaf yn unig. Mae cynllunio, fel cyllid, yn aml yn golygu trafferth i'r cyngor. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith. Ni all ei farn ar gais cynllunio gael ei chrynhoi o sylwadau a ysgrifennir ar gopi o gais

a drosglwyddir o gynghorydd i gynghorydd y tu allan i gyfarfod. Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud mewn cyfarfodydd sy’n gyfreithlon ac wedi’u rheoli’n dda. Os yw hynny’n briodol, mae’n arfer effeithlon i’r pwyllgor cynllunio gyfarfod bob dwy neu dair wythnos gan ei bod yn ofynnol i awdurdod cynllunio eich cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn amserlen dynn.

Dylai cynghorwyr ddilyn y cod ymddygiad bob amser – cofiwch y buddiannau personol hynny. Gall fod yn arbennig o anodd i gynghorydd tref neu gymuned sydd hefyd yn gwasanaethu ar bwyllgor cynllunio cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. Gall cynghorwyr sy’n gwisgo dwy het siarad a phleidleisio ar gais gerbron y naill gyngor a’r llall. Wrth ystyried cais i’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol, rhaid i gynghorwyr sy’n gwisgo dwy het gadw meddwl agored ac osgoi cael eu dylanwadu gan safbwynt y cyngor cymuned neu dref; yn lle hynny, rhaid iddynt ystyried y cais o safbwynt y sir. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau yn deg, yn agored ac mewn modd diduedd, rhaid i gynghorwyr gael eu gweld yn gwneud hynny. Mae meddwl agored yn hanfodol ar gyfer unrhyw agwedd ar waith y cyngor.

## 15. Y Cyngor Cymuned Gweithredol

Wrth wraidd arferion gorau o ran darparu gwasanaethau a chynllunio cymunedol mae’r cyngor cymuned neu’r cyngor tref gweithredol yn gweithio mewn partneriaeth â’i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. Dylai cynghorau weithio i wella’r broses gyfathrebu rhwng yr haenau ym mhob maes y darperir gwasanaethau ynddo.

Rhaid i bob cyngor gael gwefan i gyhoeddi gwybodaeth a dylent ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig i roi delwedd fwy modern, deinamig a phroffesiynol i’r cyhoedd. Mae gwefannau yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cymunedau ar wasgar. Yn arbennig, gall y cyngor cymuned neu dref ddarparu pwynt gwybodaeth ‘un stop’ gyda mynediad electronig i wasanaethau mewn mannau eraill. Mae dull cyfathrebu electronig yn sicrhau y gellir cael gafael yn gyflym ar yr wybodaeth ddiweddaraf gan sefydliadau megis Llywodraeth Cymru neu’r cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. Mae hefyd yn ffordd werthfawr o gysylltu cynghorwyr â’u hetholwyr, yn enwedig pobl ifanc, a gellir ei ddefnyddio i hwyluso rhwydweithio rhwng cynghorau cymuned a thref.

Gall cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ystyried trosglwyddo cyllid pellach fel y gall y cynghorau cymuned a thref ddarparu mwy o wasanaethau. Ni fydd pŵer yn cael ei drosglwyddo os nad oes gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ffydd ym

mhroffesiynoldeb y cyngor cymuned neu dref a'i allu i gyflawni ei waith. Gall cytundebau Siarter fod yn sylfaen i gynnal trafodaethau rhwng cynghorau sy'n awyddus i ymchwilio i ddirprwyo gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog cynghorau cymuned a thref, fel sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cynrychioli cymunedau lleol, i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i sicrhau'r gorau i bobl leol.

Dylai'r cyngor cymuned neu dref ddewis ei gynrychiolydd ar bartneriaeth yn ofalus, gan ddibynnu ar brofiad ac arbenigedd a'r gallu i gynrychioli amrywiaeth barn y gymuned leol; mae hyn yn golygu cael gwybod yn llawn am bob barn. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y sianeli cyfathrebu ar agor fel bod y trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir gan y bartneriaeth yn cael eu cyfleu'n glir i'r gymuned dan sylw, ac i'r gwrthwyneb.

Yn aml, mae'r cyngor cymuned neu dref yn cael ei gynrychioli ar sefydliadau eraill yn y gymuned, gan gynnwys corff llywodraethu ysgol gynradd ble y cynrychiolir y gymuned. Mae cyswllt â sefydliadau eraill yn helpu'r cyngor i fod yn ymwybodol o anghenion a buddiannau lleol. Mae hefyd yn helpu'r cyngor i gydlynu gweithgareddau a goruchwylio'r grantiau y mae'n eu rhoi i grwpiau lleol.

Mae'r cyngor cymuned neu dref gorau yn cynrychioli pob rhan o'i gymuned ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Ei nod yw bod yn gynhwysol drwy sicrhau nad yw neb yn teimlo o dan anfantais. Yn arbennig, rhaid iddo sicrhau na chaiff pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf (neu siaradwyr ieithoedd eraill) eu heithrio.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn creu polisïau a deddfwriaeth drwy'r amser ac mae'n hollbwysig bod yn ymwybodol i newidiadau wrth iddynt ddatblygu. Mae'n hanfodol i gynghorwyr a staff y cyngor fynychu cyrsiau hyfforddi, yn arbennig rhai a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad personol yn ogystal â helpu i sicrhau bod gan y cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf (gweler Rhan Pump am ragor o ganllawiau).

I grynhoi, mae'r cyngor cymuned neu dref da:

- yn darparu arweiniad cymunedol a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol;
- yn gwrando ar bobl leol ac yn rhoi llais i'w hanghenion;
- yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol;
- yn eu hysbysu'n rheolaidd am yr hyn y mae'n ei wneud a pham;

- yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol; mae hyn yn golygu bod ei gyllid wedi ei reoli'n dda; ei fod yn cydymffurfio â safonau uchel o ran ymddygiad ac yn cael ei wasanaethu gan glerc hyfforddedig;
- yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn enwedig awdurdodau sir ac awdurdodau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref eraill;
- yn ymrwymedig i hyfforddiant a datblygiad parhaus, nid yn unig i'w staff ond i gynghorwyr hefyd;
- yn weithredol ac wedi'i ethol gan y gymuned.

Y syniad canolog yw bod gan y cyngor berthynas agos â'i gymuned a'i fod mor weithgar fel bod pobl am wasanaethu fel cynghorwyr – felly dyna pam y ceir etholiadau. Gweledigaeth o ddemocratiaeth ar ei gorau ydyw; pleidleisiau lleol i bobl leol ar gyfer gweithredu'n lleol.

Mae'r rhan nesaf a'r rhan derfynol yn cynnwys cyngor, cysylltiadau a gwybodaeth arall i'ch helpu wrth eich gwaith fel cynghorydd cymuned.

# Rhan pump: Offer Angenrheidiol

## 16. Peryglon

Gall rhywbeth fynd o’i le hyd yn oed yn y cynghorau gorau, felly un o’r adnoddau mwyaf defnyddiol yw clerc y cyngor. Gall clercod hyfforddedig sylweddoli pan fydd angen rhoi sylw i rywbeth; os na allant ddatrys y broblem, byddant yn gwybod am rywun a all wneud hynny.

Dylai eich cyngor rag-weld lle y gallai’r system fethu neu ble y gallai damweiniau ddigwydd. Er enghraifft, gallai fod yn beryglus i’r cynghorwyr, y clerc a’r cadeirydd:

- os byddant yn ansicr o’u priod rolau, dyletswyddau a chyfrifoldebau;
- os nad ydynt yn gweithio fel tîm neu os nad ydynt yn parchu ei gilydd;
- os nad ydynt yn cyfathrebu â’i gilydd;
- os byddant yn canolbwyntio ar gael y gorau ar eraill.

At hynny, gallai’r cyngor wynebu anhawster:

- os yw’n caniatáu i unigolyn neu grŵp bach o gynghorwyr gael gormod o ddylanwad;
- os yw’n caniatáu i un cynghorydd (gan gynnwys y cadeirydd) wneud penderfyniadau ar ei ran;
- os nad yw’n gwrando ar ei gymuned, ar gynghorau cymuned a thref eraill, ar awdurdodau sirol ac awdurdodau bwrdeistref sirol ac ar gyrff allanol, ac yn cyfathrebu â hwy;
- os yw’n anwybyddu neu’n ennyn gwrthwynebiad y wasg;
- os nad oes ganddo gontractau cyflogaeth ar gyfer staff ac os nad yw’n talu staff am yr oriau a weithiant yn ôl cyfraddau tâl a argymhellir;
- os nad yw’n cadw ei gofnodion yn drefnus ac os nad oes ganddo system reolaeth ariannol gadarn;
- os nad yw’n rheoli cyfarfodydd yn effeithiol;
- os nad oes gwybodaeth ddigonol ganddo am y pynciau i’w trafod.

Mae pawb yn y tîm yn gyfrifol am sicrhau bod y cyngor yn osgoi’r peryglon hyn ac yn y pen draw, y cyngor sy’n atebol. I’r gwrthwyneb, mae cynghorwyr hyddysg sydd wedi paratoi’n ofalus yn osgoi anawsterau ac yn rhoi o’u hegni i wasanaethu’r gymuned.

## 17. Dogfennau Pwysig

Dylech wybod bob amser ble y cedwir eich dogfennau pwysig fel y gallwch gyfeirio atynt pan fydd angen.

Fe'ch cynghorir i gael eich copi eich hun o'r canlynol:

- amserlen y cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod;
- rheolau sefydlog y cyngor;
- rheoliadau ariannol y cyngor;
- y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor;
- manylion cyswllt cynghorwyr a'r clerc
- (ond noder, dim ond yn ystod oriau gwaith penodedig y dylid cysylltu â'r clerc);
- y gyllideb am y flwyddyn bresennol;
- cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Bydd yn ddefnyddiol i chi wybod hefyd a oes gan eich cyngor y canlynol ac, os oes, beth sydd ynddynt. Y clerc sy'n cadw'r dogfennau hyn fel arfer:

- map o'r gymuned;
- y cynllun gweithredu cymunedol;
- strategaeth, cynllun gweithredu neu gynllun busnes y cyngor;
- y datganiad dylunio;
- y cynllun llesiant lleol a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- y cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol;
- polisi rheoli datblygu eich cyngor cymuned;
- polisïau cyfle cyfartal ac iechyd a diogelwch;
- prosesau ar gyfer ymdrin ag argyfyngau a gweithio gyda'r cyfryngau;
- gweithdrefnau cwyno;
- Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor;
- cynllun cyhoeddi'r cyngor ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- polisi diogelu data'r cyngor;
- polisi asesu risg;
- cofrestr asedau (rhestr o eiddo);
- cofrestr o fuddiannau'r cynghorwyr;

- cytundebau prydlesu;
- polisïau yswiriant;
- y llyfr arian parod ar gyfer cofnodi derbyniadau a thaliadau;
- rhestr o daliadau a ffioedd y cyngor am wasanaethau a chyfleusterau;
- cytundebau partneriaeth.

Efallai y bydd angen i chi wybod y canlynol hefyd:

- maint a chyfansoddiad poblogaeth y gymuned a'i hetholaeth;
- faint o dreth gyngor y mae cartref cyffredin yn ei thalu i'r cyngor cymuned neu dref;
- manylion cyswllt cynghorwyr yr awdurdod sirol a'r awdurdod bwrdeistref sirol;
- manylion cyswllt sefydliadau lleol.

Peidiwch â phoeni os nad yw'r holl wybodaeth hon ym meddiant eich cyngor. Gellir ei chasglu dros amser – ar wahân i eitemau hanfodol fel y rheoliadau ariannol, y mae'n rhaid iddynt fodoli eisoes.

## 18. Ffynonellau Cyngor

Dylech ddechrau bob amser drwy ofyn i'ch clerc. Gwaith y clerc yw derbyn gwybodaeth gan gyrff eraill a sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ganddo ar eich rhan. Fel cyngor, dylech fonitro llwyth gwaith y clerc i sicrhau bod digon o oriau i gyflawni'r tasgau y mae'r cyngor yn gofyn i'r unigolyn eu gwneud. Bydd eich clerc (a'r cyngor) yn elwa os yw'r clerc yn aelod o'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'r Gymdeithas yn darparu cyngor cyfreithiol, ariannol a chyngor arall, cwrs hyfforddi ar-lein a chryn gymorth a chanllawiau gan rwydwaith y clercod. Cynghorir eich Cyngor i dalu tanysgrifiad y clerc i'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

### Sefydliadau

Mae'n debyg mai'r cam nesaf o ran cyngor ar faterion cyfreithiol, polisi a hyfforddiant cynghorwyr fydd cysylltu ag Un Llais Cymru neu ei bwyllgor ardal. Bydd angen i'ch cyngor fod yn aelod er mwyn elwa ar ei wasanaethau a chael y newyddion diweddaraf am newidiadau sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref.

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd sefydliad fel y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol neu Gweithredu Gwirfoddol sy'n cynnig cyngor ar ddarparu gwasanaethau'n lleol, cyllid a phrosiectau cymunedol.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru **(https://planningaidwales.org.uk)** yn ffynhonnell annibynnol o gyngor ar bob math o faterion cynllunio. Mae'n hynod werthfawr i gymunedau lleol sy'n cymryd rhan yn y broses gynllunio.

Mae rhagor o fanylion am rôl a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ba safonau sy'n berthnasol i Brif Gynghorau, i'w cael ar wefan y Comisiynydd: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

## Cyhoeddiadau

Cyhoeddir canllawiau newydd ar gyfer cynghorau cymuned o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan fydd y rheolau'n newid. Eich clerc sy'n gyfrifol am gael gwybod am y canllawiau hyn a'u trosglwyddo i gynghorwyr. Mae Un Llais Cymru yn rhannu gwybodaeth ac yn rhoi cymorth a chyngor i gynghorau, gan sicrhau bod cynghorau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Felly, mae aelodaeth o Un Llais Cymru yn hanfodol. Er enghraifft, mae'r canllawiau diweddar yn cynnwys

- Dogfen wybodaeth am gyfarfodydd aml-leoliad a hysbysu am gyfarfodydd
- Cysylltu â'ch cymuned leol: Canllaw cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod
- Cod ar yr Arferion a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol
- Canllawiau ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r cyhoeddiadau canlynol hefyd o ddiddordeb.

**Mae *The Parish Councillor's Guide*** gan Paul Clayden yn ganllaw cyflym a darllenadwy i gyfraith ac arfer cynghorau tref, plwyf a chymuned. Nodir y pynciau yn nhrefn yr wyddor, a chyhoeddwyd yr 20fed rhifyn yn 2009 gan Shaw and Sons.

**Cyhoeddwyd *Local Councils Explained*** gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol yn 2013. Mae'n egluro'r gyfraith a'r gweithdrefnau ar gyfer cynghorau ac yn cynnwys rheolau sefydlog enghreifftiol. Disgwylir fersiwn wedi'i diweddaru yn 2022.

**Mae *Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru*** gan yr Athro Michael Woods o Brifysgol Aberystwyth yn adolygiad o dystiolaeth a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru (cyhoeddwyd yn 2014).

Ar gyfer y cynghorydd sy'n chwilio am wybodaeth fanwl am y gyfraith a gweithdrefnau, mae ***Arnold-Baker on Local Council Administration*** gan Roger Taylor yn llyfr gwerthfawr; chwiliwch am y rhifyn diweddaraf gan LexisNexis. Mae'n hanfodol bod gan y cyngor gopi o'r rhifyn diweddaraf, sy'n cael ei adnabod yn aml fel 'beibl y clerc', gan ei fod yn rhoi cyngor manwl ac yn cynnwys darnau o ddeddfwriaeth berthnasol.

**Mae *Governance and Accountability for Local Councils in Wales:*** *A Practitioner's Guide* (y fersiwn ddiweddaraf) a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, yn ganllaw defnyddiol i swyddogion ariannol cyfrifol ac i gynghorwyr sy'n chwilio am wybodaeth fanwl am reolaeth ariannol. Mae'n egluro 'arferion priodol' statudol wrth reoli arian.

***Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref*** (2015) - canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru ar gyhoeddi gwybodaeth ar y we.

***Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru*:** Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned.

**Mae *Being a Good Employer*** yn ganllaw hynod ddefnyddiol a gyhoeddwyd gan y National Training Strategy (Lloegr). Mae'n mynd â chi drwy bob cam o'r broses gyflogi o recriwtio i adael.

***LCR*** (y *Local Council Review* gynt), yw'r cylchgrawn chwarterol a gyhoeddir gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol sydd ar gael trwy eich cyswllt yn Un Llais Cymru.

Mae ***DIS Extra*** yn fwletin newyddion electronig sy'n cael ei gyhoeddi bob pythefnos gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Mae ar gael i danysgrifwyr.

Mae Un Llais Cymru yn cyhoeddi e-fwletin misol.

Caiff ***The Clerk*,** cyfnodolyn y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, ei gyhoeddi bob deufis, mewn print ac ar-lein.

**Mae *The Community Planning Handbook*** gan Nick Wates (a gyhoeddwyd yn 2000 gan Earthscan) yn ffynhonnell ddefnyddiol a chryno ar y rhan y mae'r cyhoedd yn ei chwarae ym maes cynllunio a gweithredu.

Mae'r Pecyn Cymorth Hunanasesu ar-lein ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (2022) ar gael gan Un Llais Cymru a’r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

## Hyfforddiant

Dylai fod gan gyngor drefniadau ar gyfer ymsefydlu – cyflwyno cynghorwyr newydd i waith a gweithdrefnau’r cyngor. Bydd y canllaw hwn yn rhan o gyfnod ymsefydlu sydd wedi’i deilwra i waith y cyngor penodol. Y clerc, ar y cyd â’r cadeirydd efallai, yw’r person gorau yn aml i gynnal yr hyfforddiant ymsefydlu.

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gwaith Un Llais Cymru a’r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yw darparu hyfforddiant i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Dylai eich cyngor ddweud wrth Un Llais Cymru neu wrth y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol beth sydd ei angen arno o ran hyfforddiant.

Mae Un Llais Cymru (www.unllaiscymru.org.uk) yn cynnig rhaglen hyfforddi flynyddol sy’n cynnwys sawl modiwl. Mae hefyd yn darparu cyrsiau pwrpasol i gynghorau sydd ag anghenion hyfforddi penodol, os oes modd. Rhaid i gynghorau gynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddi clercod a chynghorwyr yn eu cyllidebau, yn unol â’r cynlluniau hyfforddi a gyhoeddwyd ganddynt. Mae’n bosibl y gall Llywodraeth Cymru roi bwrsariaeth i gynghorau sydd ar incwm isel.

Mae ILCA (www.unllaiscymru.org.uk) yn gwrs ar-lein sydd wedi’i ysgrifennu a’i ddarparu gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae’n ddefnyddiol iawn i gynghorwyr newydd, clercod a rhai sy’n dymuno bod yn glerc, gan ei fod yn rhoi cyflwyniad i waith cynghorau cymuned a thref ac mae’n cynnwys adrannau ar swyddogaethau, y gyfraith a gweithdrefnau, cyllid, rheoli, a’r gymuned. Mae’n gwrs sy’n hwylus i’w astudio gartref a gallwch wirio eich gwybodaeth drwy wneud profion ar-lein sy’n gwneud i chi feddwl yn galed. Mae'r Gymdeithas hefyd yn darparu cwrs ar-lein o'r enw FILCA (Cyflwyniad i Gyllid mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol) fel cyflwyniad i swyddogion sy’n gyfrifol am gyllid a chynghorwyr sy'n arbenigo mewn cyllid. Ewch i https://www.slcc.co.uk/ i gael rhagor o wybodaeth.

Ceir dau gymhwyster a gydnabyddir drwy’r wlad sydd wedi’u paratoi i gyd-fynd yn union ag anghenion y sector cynghorau cymuned ac sy’n hanfodol ar gyfer clercod a rhai sy’n dymuno bod yn glercod. CiLCA yw’r cymhwyster Lefel Tri, lle mae’n rhaid i ymgeiswyr gwblhau portffolio esboniadau a dogfennau gyda nodiadau sy’n berthnasol i’w gwaith ar-lein. Yn dilyn hynny, mae’r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn darparu cymwysterau

addysg uwch mewn Llywodraethu Cymunedol a ddilysir gan Brifysgol De Montfort ar Lefelau 4, 5 a 6. Mae’r cymwysterau uwch yn addas ar gyfer swyddogion a chynghorwyr. Gellir cael gwybodaeth bellach gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus yw’r broses sy’n galluogi cyflogeion i olrhain, cofnodi a chynllunio dysgu. Mae’r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cyhoeddi canllaw ar bwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Gall y canllaw hwn fod yn ddefnyddiol i gyflogwyr fel sail ar gyfer gwerthusiadau blynyddol a datblygiad swyddogion.

## Rhestr o ddyletswyddau a phwerau cyfreithiol

Mae’r rhestr isod yn rhestr ddangosol o ddyletswyddau a phwerau i’ch helpu i werthfawrogi’r amrywiaeth eang o swyddogaethau y mae Deddfau Senedd y DU a Mesurau neu Ddeddfau Senedd Cymru yn eu cwmpasu, yn gryno. Mae’n ganllaw cyfeirio defnyddiol pan fydd arnoch angen gwybod a all y cyngor cymuned weithredu. Ond cofiwch na all yr un rhestr gynnwys popeth. Cofiwch fod dyletswydd yn weithred y mae'n rhaid ei chyflawni yn ôl y gyfraith tra bod pŵer yn weithred y gall y cyngor ddewis ei chyflawni

Gobeithio y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol ac, yn bwysicaf oll, gobeithio y byddwch yn mwynhau eich gwaith fel cynghorydd, ac yn gwneud gwahaniaeth i’r gymuned rydych yn ei gwasanaet.

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Adeiladau cyhoeddus a neuaddau pentref | Pŵer i ddarparu adeiladau ar gyfer cyfarfodydd a chynulliadau cyhoeddus | Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 133 |
| Adroddiad blynyddol | Dyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, adran 52 |
| Adloniant a’r celfyddydau | Pŵer i ddarparu adloniant a chefnogaeth i’r celfyddydau, gan gynnwys gwyliau a dathliadau | Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 145 |
| Atal troseddau | Pwerau i wario arian ar fesurau atal troseddau amrywiol<br>Dyletswydd i arfer swyddogaethau gan ystyried yr effaith ar droseddu ac anhrefn | Deddf Llywodraeth Leol a Threthu 1997, a.31<br>Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, adran 17 |
| Benthyca | Yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru, pŵer i gael benthyg arian at ddibenion cyfalaf | Deddf Llywodraeth Leol 2003, Atodlen 1 para 2 |
| Buddsoddiadau | Pŵer i gymryd rhan mewn cynlluniau buddsoddi ar y cyd | Deddf Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr 1961 |
| Canolfannau Cyngor ar Bopeth | Pŵer i gefnogi canolfannau Cyngor ar Bopeth | Deddf Llywodraeth Leol 1972, |
| Canolfannau cymunedol | Pŵer i ddarparu a rhoi offer i adeiladau cymunedol<br>Pŵer i ddarparu adeiladau at ddefnydd clybiau sydd ag amcanion athletaidd, cymdeithasol neu addysgol | Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran133<br>Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adran19 |
| Clociau | Pŵer i ddarparu clociau cyhoeddus | Deddf Cynghorau Plwyf 1957, adran 2 |
| Cod ymddygiad | Dyletswydd i fabwysiadu cod ymddygiad<br>Dyletswydd ar gynghorwyr i gydymffurfio â’r cod ymddygiad | Deddf Llywodraeth Leol 2000, a.51<br>Deddf Llywodraeth Leol 2000, a.52 |
| Cofgolofnau rhyfel | Pŵer i gynnal a chadw, atgyweirio, diogelu a newid cofgolofnau rhyfel | Deddf Cofgolofnau Rhyfel (Pwerau Awdurdodau Lleol) 1923, adran 1; fel y’i hestynnwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1948, adran 133 |
| Cofnodion | Dyletswydd i lunio cofnodion cyfarfodydd cymunedol<br>Dyletswydd i lunio cofnodion cyfarfodydd cyngor cymuned | Paragraff 35, Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraff 41, Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| Corffdai ac ystafelloedd post mortem | Pwerau i ddarparu corffdai ac ystafelloedd post mortem | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, adran 198 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Cyfarfod blynyddol y cyngor | Dyletswydd i'w gynnal | Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, paragraff 23 |
| Cyfarfodydd | Dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol<br><br>Dyletswydd i gynnal cyfarfod cyn pen 14 diwrnod i etholiad cyngor cymuned<br><br>Pŵer i gynnal cyfarfod arbennig<br><br>Cworwm ar gyfer cyfarfodydd<br><br>Dyletswydd i roi gwybod am amser a lleoliad cyfarfod | Paragraff 23(1), Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Paragraff 23(2), Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Paragraff 25, Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraff 28, Atodlen 12, Deddf<br><br>Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraff 26(1)(a), Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a.49 a Rhan 1 o Atodlen 4 |
| Cyfarfodydd cymunedol | Pŵer i'w galw a dyletswydd i roi rhybudd | Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, paragraffau 30, 30D a 30E |
| Cyfethol aelodau | Pwerau i gyfethol personau i lenwi swyddi gweigion<br>Dyletswydd i hysbysebu | Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, adran 21<br>Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006, Rheoliad 5<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adran 116 |
| Cyfleusterau cyhoeddus | Pŵer i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, a.87 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a.116 |
| Cyfleusterau cynadledda ac arddangosfeydd | Pŵer i ddarparu cyfleusterau | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.144 |
| Cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd | Dyletswydd i roi cyfle i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau am unrhyw fusnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 48 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi | Dyletswydd i gyhoeddi dogfennau sy'n ymwneud â busnes y cyfarfod<br>Dyletswydd i gael cynllun cyhoeddi | Paragraff 26(1)(aa), (b), Atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 |
| Cylchlythyrau | Pŵer i ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar lywodraeth leol | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 142 |
| Cyllid | Dyletswydd i wneud trefniadau i weinyddu materion ariannol y cyngor yn briodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny<br><br>Dyletswydd i gyfrifo cyllideb<br><br>Pŵer i gyflwyno praesept i awdurdod bilio<br><br>Dyletswydd i gadw cyfrifon at ddibenion archwiliad<br><br>Pŵer i wneud cyfraniadau ariannol etc at ddibenion prosiectau AGB | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.151<br><br>Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, a.50<br><br>Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, a.41<br><br>Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014<br><br>Deddf Llywodraeth Leol 2003, adrannau 43,58 |
| Cynllunio Gwlad a Thref | Hawl i ofyn i'r awdurdod cynllunio lleol am hysbysiad o geisiadau cynllunio | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen 1A, paragraff 2 |
| Cynrychiolwyr ieuenctid | Pŵer i benodi cynrychiolwyr ieuenctid | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a.118-119 |
| Draenio | Pŵer i ddelio â phyllau a ffosydd | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, a.260 |
| Eiddo a dogfennau | Pwerau i gyfarwyddo o ran eu cadw | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.226 |
| Elusennau | Pwerau o ran elusennau lleol | Deddf Elusennau 2011, Rhan 15 |
| Goleuadau Nadolig | Pŵer i annog ymwelwyr | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.144 |
| Gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus | Hawl i gael hysbysiad ynghylch cynnig i wneud gorchymyn | Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, a.72 |
| Gwefan | Dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth benodedig ar gael ar ffurf electronig | Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a.55 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Hamdden | Pŵer i ddarparu ystod eang o gyfleusterau hamdden | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a.19 |
| Hyfforddiant | Dyletswydd i gyhoeddi cynllun hyfforddi sy'n nodi anghenion hyfforddi cynghorwyr a staff y cyngor | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 67. |
| Is-ddeddfau | Pŵer i wneud is-ddeddfau ar gyfer:<br><br>Corffdai ac ystafelloedd post mortem<br><br>Parciau difyrrwch<br><br>Mannau parcio<br><br>Mannau agored a mynwentydd | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, a.198<br><br>Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875, a.164<br>Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984, a.57 (7)<br>Deddf Mannau Agored 1906, a.15 |
| Loterïau | Pwerau i ddal trwydded gweithredu loteri | Deddf Gamblo 2005, a.98 |
| Lleoliad cyfarfodydd | Y pwer i gynnull cyfarfodydd mewn unrhyw fan a gyfarwyddir gan y cyngor, boed hynny y tu mewn neu'r tu allan i ardal y cyngor | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, paragraff 20 o Atodlen 4 |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol (ac i gyflwyno adroddiad blynyddol) os oedd gwariant neu incwm gros y cyngor o leiaf £200k ym mhob un o'r tair blynedd cyn cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a.40 |
| Llochesi bysiau | Pŵer i ddarparu a chynnal a chadw llochesi | Deddf Llywodraeth Leol (Amrywiol) 1953, a.4 |
| Mannau agored | Pŵer i gaffael tir a dyletswydd i'w gynnal a chadw | Deddf Mannau Agored 1906, a.9 a 10 |
| Mynwentydd ac amlosgfeydd | Pŵer, fel awdurdod claddu, i gaffael a darparu dyletswydd i gynnal a chadw<br>Pŵer i gytuno i gynnal a chadw henebion a chofebion<br>Pŵer i gyfrannu tuag at gostau mynwentydd | Deddf Mannau Agored 1906, a.9 a 10<br>Deddf Cynghorau Plwyf ac Awdurdodau Claddu (Amrywiol) 1970, a.1<br>Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.214 |
| Mynwentydd ar gau | Pwerau i'w cynnal a'u cadw | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.215 |
| Mynychu cyfarfodydd gan bobl nad ydynt yn yr un lle | Dyletswydd i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir neu'n rhannol rithwir | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 47 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Newid hinsawdd | Pŵer i hyrwyddo mesurau arbed ynni lleol | Deddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006, a.20 |
| Nodiadau cyfarfodydd | Dyletswydd i lunio nodiadau cyfarfod o fewn 7 diwrnod gwaith i'r cyfarfod | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, paragraff 12 o Atodlen 4. |
| Parciau, parciau difyrrwch | Pŵer i gaffael tir neu i ddarparu meysydd hamdden, llwybrau cerdded, parciau difyrrwch a mannau agored, a phŵer i'w rheoli | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875,<br>a.164 (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 14, para 27)<br>Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1890, a.44<br>Deddf Mannau Agored 1906, a.9 a 10 |
| Parciau Cenedlaethol | Dyletswydd i fod yn ystyriol o'r dibenion y mae Parciau Cenedlaethol wedi'u dynodi ar eu cyfer | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a.11A |
| Pleidleisiau cymunedol | Pŵer i drefnu pleidlais llywodraethu cymunedol (ni chaniateir unrhyw bleidleisiau eraill) | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 162 ac Atodlen 13 |
| Priffyrdd | Pŵer i wneud cytundeb ynghylch neilltuo<br><br>Pŵer i atgyweirio a chynnal a chadw llwybrau troed a llwybrau ceffylau<br><br>Pŵer i blannu coed ac ati ac i gynnal a chadw ymylon ffyrdd<br><br>Pŵer i gwyno wrth yr awdurdod priffyrdd o ran diogelu hawliau tramwy a thir diffaith wrth ymyl y ffordd<br>Pŵer i godi polion fflagiau ac ati ar briffyrdd<br><br>Pŵer i gyfrannu at gynlluniau gostegu traffig<br><br>Pŵer i ddarparu seddau a llochesi wrth ymyl y ffordd<br><br>Pŵer i oleuo ffyrdd a mannau Cyhoeddus<br><br>Pŵer i ddarparu lleoedd parcio | Deddf Priffyrdd 1980, a.30<br><br>Deddf Priffyrdd 1980, a.43, 50<br><br>Deddf Priffyrdd 1980, a.96<br><br>Deddf Priffyrdd 1980, a.130(6)<br><br>Deddf Priffyrdd 1980, a.144<br><br>Deddf Priffyrdd 1980, a.274A<br><br>Deddf Cynghorau Plwyf 1957, a.1<br><br>Deddf Cynghorau Plwyf 1957, a.3<br><br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a.57 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
| --- | --- | --- |
| | Pŵer i ddarparu arwyddion traffig a hysbysiadau eraill | Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a.72 |
| Pŵer cyffredinol (a137) | Pŵer i fynd i wariant at ddibenion penodol nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel arall. | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 137 |
| Pŵer cymhwysedd cyffredinol | Pŵer i wneud unrhyw beth y gall unigolion yn gyffredinol ei wneud (ar gyfer cynghorau cymwys yn unig).<br>Pŵer i gyfyngu ar bwer awdurdodau lleol i fynd i wariant at ddibenion penodol nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel arall i gynghorau nad ydynt yn gynghorau cymuned. Cymwys | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 24.<br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 37 a Rhan 2 o Atodlen 3. |
| Rhandiroedd | Pwerau i ddarparu rhandiroedd<br>Dyletswydd i ddarparu gerddi rhandiroedd os na fodlonir y galw | Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908, a.23 |
| Rheolau sefydlog | Pŵer i wneud rheolau sefydlog<br>Pŵer i gael rheol sefydlog mewn perthynas â chontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau a deunyddiau neu ar gyfer cynnal Gwaith | Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, para. 42<br>Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 135(2) |
| Rheoli morol | Pŵer i gael cyngor gan y Sefydliad Rheoli Morol<br>Pŵer, drwy gytundeb, i dderbyn swyddogaethau a ddirprwyir | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a.25<br>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a.55-57 |
| Rhoddion | Pŵer i dderbyn rhoddion | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.139 |
| Sbwriel | Pŵer i ddarparu cynwysyddion mewn mannau cyhoeddus | Deddf Sbwriel 1983, a.5, 6 |
| Staff | Pŵer i benodi staff | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.112 |
| Statws | Pŵer i'r cyngor cymuned benderfynu y caiff y gymuned statws tref | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.245B |
| Swyddogion a gweithwyr y cyngor yn sefyll mewn etholiad | Yr hawl i sefyll etholiad i'r cyngor sy'n eu cyflogi | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 20 |
| Tir | Pŵer i gaffael drwy gytundeb, i ddosbarthu a gwaredu tir<br>Pŵer i dderbyn tir yn rhodd | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.124, 126, 127<br>Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 139 |

| Gweithgaredd | Pwerau a Dyletswyddau | Darpariaethau Statudol |
|---|---|---|
| Tiroedd comin a meysydd pentref | Pŵer i ddiogelu tir comin a meysydd pentref pan nad yw'r perchennog wedi cofrestru | Deddf Tiroedd Comin 2006, a.45 |
| Swyddogion a gweithwyr y cyngor yn sefyll mewn etholiad | Yr hawl i sefyll etholiad i'r cyngor sy'n eu cyflogi | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 20 |
| Trafnidiaeth | Pŵer i sefydlu cynlluniau rhannu ceir<br><br>Pŵer i wneud trefniadau ar gyfer costau tacsi rhatach<br><br>Pŵer i ymchwilio i'r ddarpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau o'r fath<br><br>Pŵer i wneud grantiau ar gyfer gwasanaethau bysiau | Deddf Llywodraeth Leol a Threthu 1997, a.26<br><br>Deddf Llywodraeth Leol a Threthu 1997, a.28<br><br>Deddf Llywodraeth Leol a Threthu 1997, a.29<br><br>Deddf Trafnidiaeth 1985, a.106A |
| Twristiaeth | Pŵer i gyfrannu at sefydliadau penodol sy'n annog twristiaeth | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.144(2) |
| Y Gymraeg | Dyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a.25 |
| Yr amgylchedd (ei ddiogelu) | Dyletswydd i hyrwyddo a gwella bioamrywiaeth | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6 |

## 19. Geirfa

| Cyfeirnod | Esboniad |
|---|---|
| Agenda | Yr agenda yw'r rhestr o eitemau sydd i'w trafod yn ystod cyfarfod. Yn y gyfraith, mae'n nodi'r "busnes i'w drafod". |
| Archwilydd allanol | Cynhelir archwiliad allanol pan fydd archwilydd penodedig y Llywodraeth yn gwneud y gwiriad terfynol gan ddefnyddio'r ffurflen flynyddol. |
| Archwilydd mewnol | Mae'r archwilydd mewnol yn annibynnol ar y cyngor ac mae ganddo lefel gymhwysedd briodol. Adolygiad o system reolaeth fewnol y cyngor yw'r archwiliad mewnol. |
| Awdurdod cynllunio | Yr awdurdod cynllunio lleol yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am bob penderfyniad ym maes cynllunio datblygu a rheoli datblygu. |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal. Eu nod yw gwella cydweithio rhwng asiantaethau cyhoeddus megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae eu gwaith yn cynnwys asesu llesiant yn eu hardal a gosod amcanion mewn Cynllun Llesiant Lleol fel eu bod yn gallu cyfrannu cymaint â phosibl at nodau Llesiant Llywodraeth Cymru. |
| Buddiannau personol | Buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill, fel y'u diffinnir yng nghod ymddygiad eich cyngor, yw buddiannau personol. |
| Buddiannau sy'n rhagfarnu | Buddiant personol sydd mor sylweddol fel y gallai aelod gwybodus o'r cyhoedd farnu ei fod yn niweidio eich barn ar y mater yw buddiant sy'n rhagfarnu. |
| Cod ymddygiad | Y cod ffurfiol yw hwn a fabwysiedir gan eich cyngor i reoleiddio ymddygiad cynghorwyr. Rhaid i chi gytuno i lynu wrth y cod pan fyddwch yn llofnodi'ch Datganiad Derbyn Swydd neu cyn eich cyfarfod cyntaf. |
| Cofrestr buddiannau | Dyma'r gofrestr o'ch buddiannau personol a allai effeithio ar eich penderfyniadau fel cynghorydd. Swyddog priodol y cyngor cymuned sy'n cadw'r gofrestr a rhaid eu diweddaru'n gyson. Ni ellir dyfarnu goddefebau os na fydd y buddiannau wedi'u cofrestru'n ffurfiol ymlaen llaw. |

| | |
|---|---|
| Corff corfforedig | Mae gan gorff corfforedig fodolaeth gyfreithiol sydd ar wahân i'w aelodau unigol. Gellir mynd ag ef i'r llys, gall ymrwymo i gontract ac mae'n gyfrifol, fel corff, am ei weithredoedd. |
| Corff gwirfoddol | Sefydlir corff gwirfoddol gan wirfoddolwyr; ond gall godi arian a chyflogi staff i wneud ei waith. Mae elusennau lleol a'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol yn enghreifftiau. |
| Cworwm | Cworwm yw nifer yr aelodau y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol cyn y gellir gwneud penderfyniadau. Os oes digon o aelodau'n bresennol, dywedir bod gan y cyfarfod gworwm. Cworwm yw traean o'r aelodaeth. |
| Cyfarfod Blynyddol y Cyngor | Cyfarfod o'r cyngor a gynhelir ym mis Mai fel arfer yw hwn. Dyma pryd yr etholir y cadeirydd. Gallai'r cyngor ethol is-gadeirydd, a bydd hefyd yn penodi aelodau o bwyllgorau a chynrychiolwyr ar gyrff eraill.<br>Efallai y caiff ei adnabod hefyd fel y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |
| Cyfarfod Blynyddol y Gymuned neu'r Dref | Cyfarfod o'r etholwyr yw hwn, nid cyfarfod o'r cyngor. Gellir ei ddefnyddio fel ffordd o gysylltu â'r gymuned, i ennyn trafodaeth neu i ddathlu. Yn wahanol i Loegr, nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith. |
| Cyfethol | Mae cyfethol yn digwydd pan na fydd digon o ymgeiswyr ar gyfer seddau mewn etholiad neu pan na fydd yr etholaeth yn galw am etholiad ar ôl i sedd ddod yn wag. Mae'r cyngor yn dewis rhywun o restr o wirfoddolwyr. |
| Cyfrifon | Papurau ariannol yw'r rhain sy'n cynnwys cofnodion o dderbyniadau a thaliadau, datganiadau o incwm a gwariant a'r fantolen. |
| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | Cyrff llywodraeth leol eraill yng Nghymru yw'r rhain. Mae rhai o'r awdurdodau hyn yn galw eu hunain yn gynghorau dinas. |
| Cyllideb | Y gyllideb yw'r cynllun ar gyfer incwm a gwariant dros y flwyddyn i ddod. Cynllunnir papurau gwaith i'ch helpu i benderfynu beth ddylai'r gyllideb fod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; dylent gynnwys cymariaethau â'r blynyddoedd ariannol blaenorol a phresennol ac mae'n sail ar gyfer cyfrifiadau praesept. |
| Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | Dyma'r sefydliad sy'n rhoi cyngor, cymorth a hyfforddiant i glercod (gweler Rhan Pump). |
| Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol | Ar hyn o bryd mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol, sy'n cynrychioli cynghorau plwyf a thref yn Lloegr, yn negodi cyflog gyda'r |

| | |
|---|---|
| | Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| Cymorth Cynllunio Cymru | Elusen annibynnol yw Cyngor Cynllunio Cymru, sy’n helpu cymunedau i ymwneud yn effeithiol â’r broses gynllunio. Mae’n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cymorth dros y ffôn (02920 625000), canllawiau hawdd eu darllen https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy a hyfforddiant effeithiol ar bob mathau o faterion cynllunio. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gweithio gyda chynghorau tref a chymuned ledled Cymru ac mae’n cynnig amrywiaeth o gyhoeddiadau a chyrsiau hyfforddi a gynlluniwyd yn benodol i ddiwallu eu hanghenion. |
| Cynllun Bro | Mae cynllun bro yn nodi canllawiau cynllunio ar gyfer datblygu a defnyddio tir mewn ardal leol. Caiff ei ysgrifennu gan bobl leol mewn cydweithrediad â'r awdurdod cynllunio. Mae wedi’i seilio ar ymgysylltu â'r gymuned ond mae cysylltiad clir rhyngddo a pholisïau'r awdurdod cynllunio. |
| Cynllun busnes | Fel arfer mae cynllun busnes yn berthnasol i dymor pum mlynedd cyngor cymuned. Mae’n dangos sut y bydd y cyngor yn codi arian ac yn gwario arian yn ystod y cyfnod hwy hwn, er mwyn cyflawni ei nodau. |
| Cynllun cyhoeddi | Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor gyhoeddi cynllun i egluro pa wybodaeth sydd ar gael a sut ac am ba gost (os o gwbl). Ceir dosbarthiadau craidd o wybodaeth y mae’n rhaid sicrhau eu bod ar gael, a dosbarthiadau dewisol o wybodaeth. Mae’n siŵr fod cynllun eich cyngor wedi’i seilio ar y model a ddarparwyd gan y Llywodraeth. |
| Cynllun datblygu lleol | Cynllun gofodol yw hwn sy’n ymwneud ag ardal cyngor unedol – yr ardal y mae awdurdod sirol neu awdurdod bwrdeistref sirol neu awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gwasanaethu. |
| Cynlluniau Llesiant Lleol | Cafodd y cynlluniau hyn eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a chânt eu llunio gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn dilyn asesid o lesiant lleol ac ymgynghori helaeth â’r gymuned, mae’r cynlluniau’n cyflwyno cynigion ar gyfer sicrhau llesiant |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd yr ardal<br>a wasanaethir gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol. Mae'n ofyniad statudol i ymgynghori â'r cyngor cymuned neu dref. |
| Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol | Fel arfer, mae hwn yn ddatblygiad seilwaith yr ystyrir ei fod yn rhy bwysig i awdurdod lleol wneud penderfyniad arno a lle ystyrir bod y budd cenedlaethol yn bwysicach na'r budd lleol. |
| Datganiad derbyn swydd | Dyma'r weithdrefn ffurfiol wrth dderbyn swydd cynghorydd. Dylech lofnodi'r datganiad hwn yn eich cyfarfod cyntaf neu cyn hynny. |
| Dirprwyo | Dirprwyo yw'r weithred o drosglwyddo'r pŵer i wneud penderfyniad i swyddog, i bwyllgor, i is-bwyllgor neu i gyngor arall. Rhaid i'r cyngor llawn gytuno ar ddirprwyo. |
| Dogfen gynllunio atodol | Cynhyrchir dogfen gynllunio atodol gan gyngor cymuned neu dref a chaiff ei mabwysiadu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'n llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. |
| Dyletswyddau | Dyma'r camau y mae'n rhaid i gyngor eu cymryd, yn ôl y gyfraith. |
| Ffurflen flynyddol | Mae'r ffurflen flynyddol yn ffurflen llywodraethu ariannol a gaiff ei llenwi a'i llofnodi gan y bobl gyfrifol a'i chymeradwyo gan y cyngor fel rhan o'r archwiliad allanol. |
| Gweithdrefnau | Canllawiau yw'r rhain ar gyfer rhedeg cyngor cymuned neu dref yn unol â'r gyfraith. |
| Gweithdrefnau caffael | Y broses y mae'r cyngor yn ei dilyn wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae'n cynnwys gofyn am dendrau a thrin tendrau mewn ffordd dryloyw a theg.<br>Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod contractau priodol wedi'u sefydlu. |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Deilydd swydd annibynnol yw'r Ombwdsmon, sy'n ystyried cwynion bod cynghorau wedi camweinyddu a honiadau bod cynghorwyr wedi torri'r cod ymddygiad. |
| Penderfyniadau | Pan gytunir ar gynnig, daw yn benderfyniad. |
| Praesept | Caiff y praesept ei bennu gan y cyngor cymuned ac mae'n cynrychioli ei gyfran o'r dreth gyngor. Mae'r bil praesept yn mynd i'r awdurdod bilio (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol) sy'n casglu'r dreth ac yn ei dosbarthu i'r cyngor cymuned. |

| | |
|---|---|
| Pwerau | Mae pwerau'n cyfeirio at y gweithgareddau y caiff cyngor gymryd rhan ynddynt, wedi'u hawdurdodi gan un o Ddeddfau Senedd y DU neu gan un o Fesurau neu Ddeddfau Senedd Cymru. |
| Pwyllgor Safonau | Pwyllgor yw hwn o'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol, a sefydlwyd i fonitro a rheoli materion sy'n deillio o'r fframwaith moesegol mewn perthynas â chynghorwyr sir, a chynghorwyr cymuned a thref. |
| Rheolaeth fewnol | Rheolaeth fewnol yw'r system o wirio bod materion ariannol y cyngor yn cael eu cynnal yn briodol. |
| Rheoli datblygu | Yr enw ffurfiol am y broses o reoli datblygiadau drwy'r broses caniatâd cynllunio yw hwn. |
| Statud | Deddf gan Senedd y DU neu Fesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru yw statud. Dyma'r gyfraith, a rhaid ei dilyn. Mae'n cynnwys rheoliadau cyfreithiol y mae'n rhaid cadw atynt wrth weithredu'r gyfraith. Cyrff statudol yw cynghorau cymuned a thref; mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu sefydlu yn ôl statud. Mae Deddfau a Mesurau yn rheoli gweithgareddau cynghorau cymuned a thref. |
| Swyddog ariannol cyfrifol | Y swyddog ariannol cyfrifol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu arian y cyngor. Y clerc yw'r swyddog hwn yn aml. |
| Swyddog Monitro | Swyddog yn yr awdurdod sirol neu'r awdurdod bwrdeistref sirol yw hwn, sy'n goruchwylio fframwaith moesegol y cyngor sir (neu'r cyngor bwrdeistref sirol) a chynghorau cymuned a thref yr ardal. Y fframwaith moesegol yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol a gynlluniwyd i gynnal safonau ymddygiad priodol gan bobl sy'n gwasanaethu mewn llywodraeth leol. Cyfeirir unrhyw achos o dorri'r cod ymddygiad at bwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol. |
| Swyddog priodol | Term yw hwn a ddefnyddir yn y gyfraith i olygu'r swyddog a benodir gan y cyngor ar gyfer diben statudol penodol. Mewn cynghorau cymuned a thref, y clerc yw'r swyddog hwn fel arfer. |
| Tri diwrnod clir | Mae hwn yn derm cyfreithiol. Nid yw'n cynnwys y diwrnod yr anfonwyd yr agenda, na diwrnod y |

| | |
|---|---|
| | cyfarfod. Nid yw'n cynnwys dydd Sul, gwyliau banc na dyddiau gwyliau'r Nadolig na'r Pasg ychwaith. |
| Un Llais Cymru | Un Llais Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. |
| Ystyriaethau perthnasol | Materion yw'r rhain sy'n berthnasol i gais, yn ôl y gyfraith ar gynllunio. |